

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 19 GORFFENAF 2022 10.00 o'r gloch		TUESDAY 19 JULY 2022 10.00 am	
CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR		HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer	

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Demcrataidd Dros Dro.

5 **CYFRIFON DRAFFT 2021/22 A DEFNYDD O'R BALANSAU AC ARIAN WRTH GEFN** (Tudalennau 23 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **FFIOEDD CARTREFI PRESWYL A NYRSIO 2022/23** (Tudalennau 47 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **DYFODOL YR UNED CYNLLUNIO POLISI AR Y CYD (YNYS MÔN A GWYNEDD)** (Tudalennau 53 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

8 **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU** (Tudalennau 67 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

9 **HUNAN ASESIAID CORFFORAETHOL 2022** (Tudalennau 73 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

10 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 111 - 112)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”

11

DATBLYGIAD I GYNYDDU CAPASITI YSGOL Y GRAIG DRWY ADEILADU BLOC CYFNOD SYLFAEN NEWYDD, GYDAG UNED GOFAL AR SAFLE'R YSGOL ESTYNGIEDIG (Tudalennau 113 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 28 Mehefin 2022

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Carwyn Jones (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.
- WRTH LAW:** Y Prif Weithredwr,
Y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Pennaeth y Gwasanaetha Tai,
Pennaeth Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff
Rheolwr Sgriwtini (AD),
Swyddog Polisi (RJ) (eitem 4),
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Trefor LI Hughes MBE, John I Jones, R LI Jones, Derek Owen, Dafydd Roberts, Liz Wood, Arfon Wyn.
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Nicola Roberts.
Pennaeth y Gwasanaeth Oedolion
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)

Estynnodd Arweinydd y Cyngor groeso i'r Aelodau a'r Swyddog i gyfarfod hybrid cyntaf y Pwyllgor Gwaith.

1 DATGANIAD O DDIDDERDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i adrodd arno.

3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd y 25ain o Ebrill, 2022, i'w cadarnhau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022 yn rhai cywir.

4 **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd, yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf 2022 i fis Chwefror 2023, a nodwyd y newidiadau a ganlyn:-

- Eitem 1 – Gostwng yr Oed Derbyn i Ysgol Corn Hir – penderfyniad dirprwyedig.
- Eitem 3 – Cyfrifon Drafft 2021/2022 a'r defnydd o falansau a chronfeydd wrth gefn – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 19 Gorffennaf, 2022.
- Eitem 9 – Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2025/26 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 27 Medi, 2022.
- Eitem 10 – Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol) – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 27 Medi, 2022.
- Eitem 14 – Cynllun y Cyngor 2022-2027 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 25 Hydref, 2022.
- Eitem 20 – Sylfaen Treth y Cyngor 2023/24 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd, 2022.
- Eitemau 24 – 26 (adroddiadau monitro ariannol chwarterol) – Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2022/23; Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2022/23; Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2022/23 – eitemau newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror, 2023.
- Eitem 27 – Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2021/22 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror, 2023.
- Eitem 28 – Cyfrif Refeniw Tai - Rhenti Tai a Thaliadau Gwasanaeth Tai 2023/24 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror, 2023.

Ers cyhoeddi'r rhaglen:-

- Penderfyniad wedi'i ddirprwyo i'r Arweinydd – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – cytundeb i barhau i gydweithio neu i uno gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd – Gorffennaf 2022.
- Adroddiad ar Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio 2022/23 i'w ystyried yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor Gwaith.

PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2022 i Chwefror 2023, fel y'i cyflwynwyd.

5 **ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO - CHWARTER 4, 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2021/2022 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a nododd ei bod yn galonogol adrodd bod y mwyafrif (92%) o'r dangosyddion corfforaethol a gafodd eu monitro yn erbyn y targedau wedi'u cyflawni. Roedd hefyd yn galonogol bod dangosyddion gwasanaeth wedi'u cyrraedd gyda 91% o'r dangosyddion perfformiad penodol yn perfformio uwchlaw'r targed. Rhoddodd enghreifftiau o berfformiad da yn ystod y flwyddyn oedd yn cynnwys canran y cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff - sydd â pherfformiad o 84% yn erbyn targed o 80%. Nifer yr eiddo gwag yr aethpwyd yn ôl i'w

defnyddio - aethpwyd yn ôl i ddefnyddio 91 eiddo yn erbyn targed o 50. Dywedodd yr Aelod Portffolio ymhellach fod tri dangosydd rheoli gwastraff wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau yn ystod y flwyddyn, gyda 95.5% o strydoedd a gafodd eu harolygu yn yr ardal yn lân a dim gwastraff arnynt. Mae'n galonogol nodi, hefyd, bod achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.25 diwrnod. Mae'r tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag arolygon o gyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys yn wyrdd yn erbyn targedau ac wedi gwella o gymharu â 2020/21. Mae perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer yr holl ddangosyddion cymaradwy (cyfanswm o 30) yn dangos bod 18 (60%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 10 (33%) wedi dirywio a 2 (7%) wedi cynnal lefel eu perfformiad.

Amlinellodd y Cynghorydd Robert Ll Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, rôl y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Dywedodd fod Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 20 Mehefin, 2022 a chodwyd y materion a ganlyn gan y Pwyllgor:

- Nododd yr aelodau fod y Cerdyn Sgorio'n crynhoi perfformiad lleol y Cyngor yn ystod Chwarter 4 2021/22 ac yn dangos darlun cadarnhaol;
- Roedd yr adroddiad yn trafod perfformiad ein trefniadau amddiffyn plant. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn mynd i'r afael â'r mater allweddol hwn;
- Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor am berfformiad lleol yn erbyn Dangosydd Perfformiad 32 → canran y gwastraff sy'n cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Gofynnwyd cwestiynau am unrhyw effaith ariannol o danberfformio a hefyd y mesurau lliniaru sydd ar waith i gael effaith gadarnhaol ar berfformiad lleol. Cytunwyd bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i berfformiad y Cyngor ar ailgylchu a'r mesurau lliniaru sydd i'w cyflwyno ar ôl i'r Gweithgor Ailgylchu gyda WRAP Cymru adrodd ar ganfyddiadau eu hadolygiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch tanberfformiad yn erbyn Dangosydd 36 - canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd. Derbyniodd y Pwyllgor yr eglurhad ynghylch effaith nifer fach o achosion ar y ganran derfynol
- Adroddwyd bod ymateb amserol i gwynion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn broblem yn Chwarter 4 a gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch perfformiad yn y maes hwn.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor wedi penderfynu derbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymhell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Arweinydd y caiff y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol a rhagwelir y bydd y Cerdyn Sgorio'n datblygu yn y dyfodol i gyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Roedd yn dymuno diolch i'r staff am eu gwaith a chroesawodd y Cerdyn Sgorio cadarnhaol a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch4 2022/23, nodi'r meysydd y mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ynddynt a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellwyd yn yr adroddiad.

6 MONITRO CYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyngor hyd yma a'r alldro disgwyledig ar gyfer 2021/2022 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yr adroddiad a dywedodd fod y Cyngor wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2021/2022 ar 9 Mawrth, 2021 gyda gwariant gwasanaeth net o £147.420m, i'w ariannu o Incwm Treth y Cyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.333m ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac eraill. Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Premiwm Treth y Cyngor o £0.121m i £1.514m. Defnyddiwyd £0.300m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei phennu gyda'r cynnydd o 2.75% yn Nhreth y Cyngor y cytunwyd arno. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid yw cyllideb 2021/2022 yn gosod gofynion ar y gwasanaethau i wneud arbedion. Dywedodd ymhellach fod yr adroddiadau'n nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 4, 31 Mawrth, 2022. Y flwyddyn ariannol hon, ceir hawliadau mewn perthynas ag argyfwng Covid i Lywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £6.135m, gyda £3.854m wedi'i dderbyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd unrhyw arian pellach yn cael ei ryddhau i dalu am y golled incwm yn ystod cam newydd y pandemig Covid. Rhagwelir tanwariant o £4.798m yn y sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2021/2022, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa Treth y Cyngor. Mae hyn yn 3.25% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/2022. Mynegodd yr Aelod Portffolio ei bod yn amhosibl rhagweld yr heriau a wynebir yn ystod y flwyddyn ariannol gyffredol ynghyd â'r heriau cynyddol gyda chostau cynyddol ac mae gwaith yn cael ei wneud gan yr Adran Gyllid ar yr effeithiau posibl y byddir yn debygol o'i hwynebu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod blwyddyn ariannol 2021/22 yn flwyddyn eithriadol oherwydd y pandemig Covid a gafodd effaith ar waith y Cyngor yn enwedig yn ystod Ch1. Cyfeiriodd at y tanwariant fel y nodwyd yn yr adroddiad a dywedodd fod grantiau'n cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at wasanaethau ac yn arbennig Gwasanaethau Cymdeithasol i gynorthwyo gyda'r pwysau a wynebir o fewn y gwasanaeth. Derbyniwyd y grant Grant Cynnal Refeniw arferol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â grant ychwanegol o £1.4m ar ddiwedd y flwyddyn a dderbyniwyd gan bob awdurdod lleol arall yng Nghymru ac mae hyn wedi cyfrannu at y tanwariant o fewn y gyllideb. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach fod y costau benthyca wedi gostwng oherwydd y tanwariant yn y gyllideb gyfalaf ac mae premiwm Treth y Cyngor wedi bod yn uwch na'r targedau. Mae hyn, hefyd, wedi cyfrannu at y tanwariant yn y gyllideb ynghyd â swyddi gweigion yn yr awdurdod ac incwm a dderbyniwyd yn arbennig yn y Gwasanaeth Morwrol yn ystod Haf 2021 oherwydd y cynnydd mewn ymwelwyr i'r Ynys. Mae'r incwm o ffioedd cynllunio ac ailgylchu hefyd wedi cyfrannu at y tanwariant yn enwedig yn ystod y chwarter diwethaf. Mae'r balansau cyffredinol yn dal i fod oddeutu £12m ar ôl gwario £3m ar wahanol brosiectau, fel y nodir yn yr adroddiad. Mae balansau ysgolion hefyd wedi cynyddu o £3.9m i £7.8m.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â balansau'r Cyngor i egluro pam fod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn. Mae blwyddyn ariannol 2022/23 yn wynebu cynnydd mewn costau mewn gwahanol feysydd, a'r gobaith yw y bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn gallu ariannu'r codiadau hyn. Rhagwelir y bydd blwyddyn ariannol 2023/2024 yn heriol oherwydd y cynnydd mewn chwyddiant ond bydd yn ddibynol ar setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi grantiau yn ystod y pandemig ond bod £1.8m yn weddill, gofynnodd a oedd y grant hwn i'w dalu'n llawn oherwydd y nodir yn yr adroddiad eglurhaol i'r Pwyllgor Gwaith fod Llywodraeth Cymru wedi datgan nad oedd unrhyw gyllid pellach yn cael ei ryddhau i dalu am golli

incwm. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o'r £1.8m wedi'i drosglwyddo i'r Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yn rhaid cymryd i ystyriaeth y byddai cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gorwario dros £1m yn y Gwasanaethau Oedolion a £0.5m o fewn y Gwasanaeth Plant heb y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â phwysau digartrefedd ar y gyllideb.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2021/22;**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi sefyllfa'r rhaglenni 'buddsoddi i arbed' yn Atodiad CH;**
- **Nodi gwaith monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2021/22 yn Atodiadau D a DD;**
- **Nodi balansau ysgolion yn Atodiad E.**

7 ALLDRO CYFALAF 2021/22

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb Gyfalaf y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, gydag amodau archwilio.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a dywedodd fod y Cyngor wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £15.842m ym mis Mawrth 2021 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai ar gyfer 2021/2022, a Rhaglen Gyfalaf o £20.313m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Lithriad Cyfalaf o £11.898m i'w ddwyn ymlaen o 2020/21, gan ddod â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.492m, a £22.561m ar gyfer y CRT. Ers proses pennu'r gyllideb, mae cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu â grant, sef cyfanswm o £15.445m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i £63.498m. Y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd £40.937m, gyda Gwariant o £23.734m ar 31 Mawrth 2022 sy'n cyfateb i 58% o'r gyllideb. Rhestrwyd y rhesymau dros y tanwariant ym mharagraff 2.2 yr adroddiad. Dywedodd ymhellach fod y Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 43% o gyfanswm ei gyllideb, gyda thanwariant sylweddol yn cael ei ragweld trwy gydol 2021/2022.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y rhesymau dros y tanwariant ar gyfer 2021/2022 ac yn benodol bod grantiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiectau cyfalaf, bod y grantiau hyn yn cael eu derbyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol a'u bod yn amhosib gwario'r grantiau ar y prosiectau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u clustnodi ar gyfer y grantiau hyn. Mae'r sector adeiladu wedi wynebu problemau wrth gyflenwi deunyddiau adeiladu yn ystod y pandemig, ac wedi hynny, gydag oedi wrth ddosbarthu deunyddiau yn achosi oedi i gontractwyr yn cwblhau

gwaith. Dywedodd ymhellach fod derbyn tendrau derbyniol, o fewn cyllidebau, hefyd wedi bod yn broblem oherwydd y cynnydd mewn costau deunyddiau.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2021/2022 a gaiff ei harchwilio, a**
- **Cymeradwyo cario £11.242m ymlaen i 2022/2023 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario ymlaen i 2022/2023 (Atodiad A – paragraff 4.3 yr adroddiad). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/2023 yw £47.203m.**

8 ADRODDIAD ALLDRO'R CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 4 2021/22

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 1 Ebrill, 2021 i 31 Mawrth, 2022.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a dywedodd fod y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi'i neilltuo ar gyfer y stoc tai ac na ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac na all cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol ychwaith gael eu defnyddio i ariannu'r CRT. Roedd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i addasu yn rhoi diffyg yn y gyllideb wedi'i chynllunio o £9,116k a fyddai'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn y CRT. Mae'r gwariant Cyfalaf £12,667k yn is na'r gyllideb, mae hyn ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyllid Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol o £706k, y mae'r manylion i'w gweld yn Atodiadau A a B yr adroddiad. Mae'r gwarged (sy'n cyfuno refeniw a chyfalaf) £11,726k yn is na'r gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r hyn a gyllidebwyd. Mae hyn yn gynnwys o £1,851k o'i gymharu â'r rhagolwg a ddangoswyd yn adroddiad Chwarter 3. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag Incwm Grant Cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd yn Chwarter 4 sy'n gwrthbwysu'r gostyngiad yn y gwarged refeniw o £648k, o gymharu â rhagolwg Chwarter 3.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai balans y CRT yw £12m ond bydd yn cael ei ddefnyddio dros y flwyddyn tuag at y prosiectau o fewn y Cynllun Busnes 30 mlynedd; y bwriad yw dod â'r balans o fewn y CRT i lawr i tua £1m. Bydd y gyllideb HRA yn cael ei defnyddio i ariannu'r stoc tai newydd y mae'r Cyngor yn bwriadu ei adeiladu a phan fydd y gronfa CRT yn disgyn dan £1m bydd y Cyngor yn benthycu arian i ariannu'r prosiectau adeiladu newydd ar yr Ynys.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022.

9 COSTAU BYW - CYNLLUN DEWISOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i bob awdurdod lleol i alluogi cymorth dan gynllun dewisol, er mwyn helpu aelwydydd yr ystyrir bod angen cymorth arnynt gyda'u costau byw. Bwriad y cynlluniau yw rhoi cymorth ar unwaith i aelwydydd wrth i Gymru wella ar ôl y pandemig ac ymdrin ag

effaith ynni cynyddol a chostau byw eraill. Wrth ddatblygu'r Cynllun Dewisol Lleol, mae gan bob awdurdod lleol rwydd hynt i dargedu'r arian i gynorthwyo ei drigolion yn y ffordd orau ac i sicrhau bod ei ddull yn gweddu orau i anghenion aelwydydd unigol. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:-

Y Prif Gynllun – bydd tua 23,000 o aelwydydd Ynys Môn yn derbyn taliad o £150 os ydynt ym Mandiau Treth Cyngor A i D, ynghyd ag unrhyw aelwydydd sy'n derbyn cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor sy'n byw mewn eiddo ym mandiau E i I. Mae hyn tua 75% i 80% o aelwydydd.

Cynllun Dewisol Awdurdodau Lleol –Mae tua £580,000 ar gael i'r Cyngor ei weinyddu ar sail angen a galw lleol, er mwyn cefnogi aelwydydd y mae'r cynnydd sylweddol mewn costau byw yn cael effaith arnynt.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at sut y bydd yr Awdurdod yn dosbarthu cyllid y ddau gynllun, fel y nodir yn yr adroddiad.

Dymunodd Arweinydd y Cyngor ddiolch i'r rhai a weithiodd ar y cyd i ddosbarthu'r cyllid hwn fydd yn helpu pobl yn y sefyllfa heriol a wynebwr ar hyn o bryd oherwydd y cynnydd mewn costau byw.

PENDERFYNWYD:-

- **Cymeradwyo rhoi £150 i'r grwpiau a nodir yn adran 2.1.1 yr adroddiad, a bod cyllideb gwerth £150,000 yn cael ei gweinyddu gan Adain Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Sir Ynys Môn;**
- **Cymeradwyo cyllid caledi i drigolion sy'n symud o lety brys i lety sefydlog:-**
'Hyd at £300 o gyllid i dalu am gostau bwyd a / neu danwydd wrth symud i lety mwy sefydlog. Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am gostau tanwydd uniongyrchol megis olew. At hyn, gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer costau dodrefnu. Bydd y cyllid o £50,000 yn cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Digartrefedd Statudol yn seiliedig ar anghenion sydd wedi'u hasesu.'
- **Cymeradwyo £150 ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn Addysg Uwch ac sy'n rhentu neu'n berchen ar lety ar yr Ynys ac sydd wedi'u heithrio o gam un:-**
 - ***Rhoi £5,000 i Grŵp Llandrillo Menai i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod;***
Rhoi £5,000 i Brifysgol Bangor i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod.
- **Cymeradwyo'r isod ar gyfer ail gam y cynllun costau byw ar gyfer trigolion Ynys Môn sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog / cyn-filwyr ac sydd mewn caledi ariannol. Bydd y taliad o hyd at £300 i bob aelwyd sy'n wynebu caledi yn seiliedig ar anghenion sydd wedi'u hasesu:-**
'Rhoi £10,000 i Leng Brydeinig Ynys Môn a SAFFA i gefnogi cyn-filwyr sy'n wynebu caledi
- **Cymeradwyo'r grwpiau a ganlyn ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn caledi ariannol ac nad ydynt yn cael cyllid caledi ychwanegol, megis y Gronfa Cymorth Dewisol. Fe all y cyllid fod tuag at gostau bwyd a thanwydd.**

- Bydd yr agwedd hon yn gefn i drigolion sydd yn wynebu tlodi er eu bod mewn gwaith. Bydd y taliad hwn o hyd at £300 yn seiliedig ar anghenion sydd wedi'u hasesu a byddai modd iddo gael ei ariannu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (Canolfan J E O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.
- Bydd yr agwedd hon yn cynnwys pob math o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a bydd yn canolbwyntio ar dystiolaeth o galedi. 100,000 i'w weinyddu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (Canolfan J E O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.
- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i gynyddu cyllidebau sefydliadau sy'n dangos yr angen a'r galw, a hynny'n seiliedig ar achos busnes derbyniol.

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI
CADEIRYDD**

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19 Gorffennaf 2022
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Awst 2022 – Mawrth 2023**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Amherthnasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.

F - Atodiadau:
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Awst 2022 – Mawrth 2023

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022



Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 12

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – **sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid** - ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 13

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Medi 2022							
1	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
2	Penodi Cynorthwyr y Pwyllgor Gwaith		Busnes y Cyngor	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	Cyngor Llawn 29 Medi 2022
3	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2022/23 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
4	Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch1 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 8 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 14

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
5	Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch1 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 8 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
6	Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch1 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 8 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
7	Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2025/26		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams		Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
8	Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol)		Gwasanaethau Cymdeithasol	Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Gary Pritchard Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 19 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	Cyngor Llawn 29 Medi 2022

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
9	Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol		Gwasanaethau Cymdeithasol	Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Gary Pritchard Cyng Alun Roberts	Panel Datblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Medi 2022	Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022	
Hydref 2022							
10	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 25 Hydref 2022	
11	Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22	Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Hydref 2022	Pwyllgor Gwaith 25 Hydref 2022	Cyngor Llawn 27 Hydref 2022

Tudalen 15

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 16

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
12	Cynllun y Cyngor 2022-2027	Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Medi 2022 (l'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 25 Hydref 2022	Cyngor Llawn 27 Hydref 2022
13	Safle Peboc		Rheoleiddio a Datblygu Economaid	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaid Cyng Carwyn Jones		Pwyllgor Gwaith 25 Hydref 2022	
14	Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)		Rheoleiddio a Datblygu Economaid	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaid Cyng Carwyn Jones		Pwyllgor Gwaith 25 Hydref 2022	Cyngor Llawn 27 Hydref 2022
Tachwedd 2022							
15	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 17

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
16 Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2022/23 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 22 Tachwedd 2022	Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	
17 Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch2 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 26 Hydref 2022	Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	
18 Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch2 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 26 Hydref 2022	Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	
19 Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch2 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 29 Tachwedd 2022	Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddariwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 18

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
20 Sail y Dreth Gyngor 2023/24 Pennu sail y dreth ar gyfer 2023/24.		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams		Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	
21 Cynllun Rheoli Cyrchfan		Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyng Carwyn Jones		Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd 2022	
Rhagfyr 2022						
22 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 13 Rhagfyr 2022	
Ionawr 2023						
23 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 24 Ionawr 2023	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 19

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Chwefror 2023							
24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	
25	Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	
26	Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	
27	Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddariwyd 7 Gorffennaf 2022

Tudalen 20

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
28	Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams Cyng Ieuan Williams		Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	
29	Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2023/24		Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun Mummery	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith 14 Chwefror 2023	
Mawrth 2023							
30	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth 2023	
31	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2022/23 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth 2023	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2022 – Mawrth 2023

Diweddarwyd 7 Gorffennaf 2022

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
32	Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol		Gwasanaethau Cymdeithasol	Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Gary Pritchard Cyng Alun Roberts	Panel Datblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth 2023	

Tudalen 21

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	19 GORFFENNAF 2022
Pwnc:	CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2021/22 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS, DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
Ffôn:	01248 752133
E-bost:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
<p>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2021/22 a'r Fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022.</p> <p>Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac mae'r adroddiad yn rhoi manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2022/23 ac yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebwr gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebwr gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig dros y misoedd nesaf.</p> <p>Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio ac y gallant newid o'r herwydd. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.</p> <p>Argymhellion:-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2021/22. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn ar gyfer 2021/22 ar y ddolen a ganlyn:- https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx 2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £12.050m, a'i fod yn cymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 4, a ddaw i gyfanswm o £9.371m. 3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried Atodiad 4 ac yn cymeradwyo'r balans o £23.181m fel gyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2021/22 (£14.079m yn 2020/21). Mae hyn £9.102m yn uwch na 2020/21 ac mae'n cynnwys £9.371m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a newid o £0.269m yn y cronfeydd wrth gefn presennol (er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng, sydd bron yn gwneud yn iawn am ei gilydd, yn y cronfeydd wrth gefn presennol). 4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, sef £7.827m. 	

<p>5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y CRT o £12.333m.</p> <p>6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnydd o £0.261m yng Nghronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau i £1.625m, yn unol â Pholisi Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau 2019/20 (fel a nodir yn Atodiad 1, Tabl 3).</p>		
<p>B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?</p>		
<p>Amherthnasol</p>		
<p>C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith</p>		
<p>Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor ar 10 Mawrth 2022.</p>		
<p>CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</p>		
<p>Ydi</p>		
<p>D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</p>		
<p>Ydi</p>		
<p>DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):</p>		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Dyluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i'r afael â rhai risgiau a materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a'i phreswylwyr.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Ydi - bydd mynd i'r afael â'r risgiau yn awr yn lliniaru'r risgiau hynny a'n atal costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Na
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.	Na
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny a amddiffynnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol i frw ymlaen ag unrhyw brosiect.

6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.	Dim effaith ar yr iaith Gymraeg.
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r UDA wedi ystyried yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r UDA yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Roedd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'r adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed ynghyd â holl sylwadau aelodau'r UDA.
4	Adnoddau Dynol	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar faterion AD.
5	Eiddo	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar eiddo'r Cyngor.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Ymgynghorwyd â'r Pennaeth TG mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar wasanaeth TG y Cyngor neu systemau TG.
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Bydd y datganiad cyfrifon drafft yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2022.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F – Atodiadau		
<ul style="list-style-type: none"> Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2021/22 Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2022 		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Alldro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Pwyllgor Gwaith, 28 Mehefin 2022 		

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1.** Mae'r adroddiad yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol a cronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant.

2. CEFNDIR

- 2.1.** Mae Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y diwygiwyd nhw gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn dim hwyrach na'r 31ain o Fai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yna mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol archwiliedig erbyn y 31ain o Orffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- 2.2.** Serch hynny, ar gyfer 2021/22, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gallai'r pandemig barhau i effeithio ar adnoddau staff awdurdodau lleol ac mae'r amserlen wedi cael ei hymestyn, gan ganiatáu hyd at 31ain o Awst 2022 i Gynghorau lofnodi eu datganiad cyfrifon drafft a hyd at y 30ain o Dachwedd 2022 iddynt gyhoeddi eu datganiadau ariannol archwiliedig.
- 2.3.** Llofnodwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2021/22 gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ar 17 Mehefin 2022, ac mae'r gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau. Y bwriad yw y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, a'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu cymeradwyo erbyn 30 Tachwedd 2022.

3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2021/22

- 3.1.** Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) Drafft ar gyfer 2021/22 ei gyflwyno yn Atodiad 2.
- 3.2.** Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2021/22 yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol, megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, felly, maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. Felly, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2022.
- 3.3.** Mae'r CIES yn dangos mai £147.691m oedd cost net y gwasanaethau, gyda gwarged o £5.94m ar ddarparu gwasanaethau. Yna, gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisiu asedau ac ail-fesur y rhwymedigaethau pensiwn, a rhydd hynny warged net terfynol ar gyfer y flwyddyn o £83.415m. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiad i gronfeydd wrth gefn a balansau. Manylir ar yr addasiadau yn nodyn 7 yn y Datganiad Cyfrifon drafft.

Tabl 1

Cysoni'r CIES i'r Cyfraniad i neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau ar gyfer 2021/22

	£'m	£'m
Cyfanswm Cost / (Gwarged) yn unol â'r CIES		(83,415)
Canslo allan y gwarged ar Ailbrisio Asedau ac Ail-fesur y Rhwymedigaethau Pensiwn	77,475	
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau	(11,852)	
		65,623
Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau		(17,792)

Dangosir y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2

Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022

	Cronfa Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	Cronfa Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu defnyddio
Eitemau sy'n effeithio ar Gronfa Wrth Gefn y Cyngor 2021/22	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans Agoriadol Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2021	(11,437)	(14,079)	(9,723)	(3,974)	(767)	(39,980)
Gor / (Tan)wariant Net 2021/22	(4,798)	-	(3,345)	(3,853)	(1,614)	(13,610)
Balans y Cyngor ar ôl y gor / (tan)wariant	(16,235)	(14,079)	(13,068)	(7,827)	(2,381)	(53,590)
Trosglwyddiadau net o / (i) Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid a gymeradwywyd	4,185	(9,102)	735	-	-	(4,182)
Balans y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2022	(12,050)	(23,181)	(12,333)	(7,827)	(2,381)	(57,772)

4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2022

4.1. Mae'r fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 i'w gweld yn Atodiad 3.

4.2. Bu cynnydd o £83.415m yng ngwerth asedau net y Cyngor, o £164.162m y llynedd i £247.577m ar 31 Mawrth 2022. Bu cynnydd o £11.725m yng ngwerth asedau tymor hir y Cyngor, yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, offer a chyfarpar y Cyngor. Roedd cynnydd o £25.14m mewn asedau cyfredol o ganlyniad i gynnydd ym malansau arian y Cyngor o £23.238m i £51.978m, gan gynnwys buddsoddiad tymor byr o £7.5m. Y rheswm am y cynnydd sylweddol hwn oedd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Grant Cymorth Refeniw ychwanegol a'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cyllido costau ychwanegol a cholledion incwm oherwydd Covid-19.

- 4.3.** Roedd cynnydd o £10.135m yn y rhwymedigaethau cyfredol, oherwydd cynnydd mewn credydwy'r a chynnydd mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Roedd cynnydd o £2.4m mewn benthyca tymor byr, wrth i fenthyciadau a ddynodwyd yn fenthyciadau tymor hir yn y gorffennol ddod yn daladwy o fewn blwyddyn h.y. 31 Mawrth 2023, a derbyniwyd benthyciad Salix di-log ar gyfer prosiectau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i weithio tuag at ei darged carbon sero net erbyn 2030. Mae grantiau gwerth cyfanswm o £7.99m a dderbyniwyd ymlaen llaw yn rhan sylweddol o'r arian a oedd yn cael ei ddal ar 31 Mawrth 2022. Bu gostyngiad o £56.681m yn y rhwymedigaethau tymor hir yn ystod y flwyddyn. Y rheswm pennaf am hyn yw gostyngiad o £55.062m yn y rhwymedigaethau pensiwn. Y rheswm am hyn yw enillion uwch na'r disgwyl ar fuddsoddiadau ac mae'r actwari wedi newid y ffactor gostyngiad a ddefnyddir oherwydd y newidiadau i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Nid yw hyn yn effeithio ar falansau'r Cyngor gan mai prisiad at ddibenion cyfrifyddu ydyw.

5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

- 5.1.** Roedd Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 yn £12.050m, sydd yn cyfateb i 8.2% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifon drafft a gallant newid ar ôl cwblhau'r archwiliad a'r cyfrifon terfynol. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi pennu isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol, a byddai hyn yn cyfateb i £7.4m. O ganlyniad, mae Balans y Gronfa Gyffredinol £4.650m yn uwch na'r lleiafswm hwn. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo gwario £0.500m o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar wella priffyrdd a bydd £0.261m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn gwasanaethau, yn unol â'r polisi cronfeydd wrth gefn gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20. Ar ôl gwneud yr ymrwymïadau hyn, gwerth y gronfa wrth gefn gyffredinol yw £11.289m ac mae'n sefyllfa ariannol da ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, gan mai £7.9m yw lleiafswm balans y Cyngor ar gyfer 2022/23.
- 5.2.** Mae'r Cyngor wedi cael ei amddiffyn rhag effaith ariannol y pandemig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan iddo dderbyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd oherwydd Covid-19 a cholledion incwm. Daeth yr olaf o'r cyfyngiadau Covid-19 i ben ar 30 Mai 2022 ac mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben. Nid yw'n eglur pa effaith fydd y pandemig yn ei gael ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn 2022/23. Cafodd y galw am wasanaethau ei ystumio dros dro gan y pandemig, ac roedd gwasanaethau a oedd yn tanwario fel arfer yn gorwario oherwydd bod gwasanaethau ar gau neu am fod llai o wasanaethau'n cael eu darparu. Roedd gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, sydd fel arfer yn rhoi pwysau ar gyllidebau, yn tanwario, megis prydau ysgol a gofal cymdeithasol plant. Er bod Covid-19 mewn cyfnod endemig erbyn hyn, heb unrhyw gyfyngiadau, mae'n debyg y bydd y galw yn uwch na'r arfer wrth i alw a oedd o'r golwg yn ystod y Pandemig ddod i'r amlwg. Bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor y gallir eu defnyddio yn helpu i leihau effaith cynnydd yn y galw yn y tymor byr.
- 5.3.** Yn 2019/20, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bolisi newydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn gwasanaethau. Roedd hyn yn caniatáu i wasanaethau roi eu tanwariant net (sef hyd at 2.5% o gyllideb refeniw net y gwasanaeth neu £75k, pa un bynnag yw uchaf) mewn cronfa wrth gefn penodol eu gwasanaeth. Ar sail alldro 2021/22 a gweithredu'r cap ar lefel y cronfeydd wrth gefn, byddai cronfa wrth gefn bob gwasanaeth fel a ganlyn:-

Tabl 3

Lefel Arfaethedig Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau

Gwasanaeth	Lefel Arfaethedig cronfeydd wrth gefn cronnus gwasanaethau ar sail 2.5% o gyllideb net 2021/22 neu £75k, pa un bynnag yw'r uchaf £	% o Gyllideb Refeniw Net 2021/22	Balans Cronfa Wrth Gefn y Gwasanaeth ar 31 Mawrth 2022 £	Cynnydd / (Gostyngiad) Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau oherwydd perfformiad ariannol 2021/22 £
Dysgu (yn cynnwys Diwylliant ond heb gynnwys Ysgolion)	142,323	2.50%	136,814	5,509
Gwasanaethau Oedolion	314,124	1.13%	177,270	136,854
Gwasanaethau Plant	279,907	2.50%	274,280	5,627
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	401,984	2.50%	381,050	20,934
Tai	75,000	6.03%	36,760	38,240
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)	108,799	2.50%	103,290	5,509
Trawsnewid (yn cynnwys AD a TGCh)	146,765	2.50%	124,970	21,795
Busnes y Cyngor	75,000	4.52%	52,770	22,230
Adnoddau	81,085	2.50%	77,070	4,015
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau Arfaethedig	1,624,987		1,364,274	260,713

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

- 6.1.** Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posib yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Mae dal cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn elfen hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor i sicrhau fod gan y Cyngor lefel digonol o wydnwch ariannol i gwrdd â risgiau'r dyfodol, heriau ariannol ac i ganiatáu buddsoddi ychwanegol mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2021/22 i'w gweld yn Nhabl 4, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo, yn ffurfiol, creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn sydd werth cyfanswm o £9,371,065.

Tabl 4

Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd a Grëwyd yn ystod 2021/22

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa Wrth Gefn	Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn	Rheswm dros greu cronfa Wrth Gefn Glustnodedig	Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn
		£		
Gwasanaethau Oedolion	Cyfraniad at gyllidebau ar y cyd	10,000	Cefnogi gofynion cyfreithiol am gyllidebau ar y cyd	Cyfraniad at gostau gweinyddol yr awdurdod arweiniol wrth weinyddu'r gyllideb ar y cyd gwasanaethau Oedolion.
Rhaglen gyfalaf – Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Cronfa Ad-dalu Addysg ar gyfer Cyfarpar TGCh yn y dyfodol	300,000	Cyllido costau yn y dyfodol	Cyllido dyfeisiau newydd mewn ysgolion i gymryd lle dyfeisiau a gyllidwyd yn wreiddiol trwy Grant HWB Llywodraeth Cymru.
Rhaglen Gyfalaf – Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Canolfan Addysg y Bont – Gwaith ar y To	2,490,851	Cyllido gwaith trwsio'r to	Cyllido gwaith sylweddol ar y to yng Nghanolfan Addysg y Bont. Mae'r swm yn y gronfa wrth gefn yn adlewyrchu'r swm a ryddhawyd o'r balansau cyffredinol, ar ôl tynnu'r costau a gafwyd yn 2021/22.
Gwasanaethau Plant	Cymorthyddion Dysgu Gwasanaethau Plant	200,000	Helpu i wella deilliannau addysg ar gyfer plant	Ariannu cymorthyddion dysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant sydd ag anghenion gofal cymdeithasol.
Corfforaethol	Setliad refeniw ychwanegol yn 2021/22 ar gyfer pwysau chwyddiant	2,256,150	Lliniaru effaith chwyddiant uchel	Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau uwch oherwydd cynnydd mewn chwyddiant.
Corfforaethol	Cynllun Hyfforddeion	219,060	Cynllunio parhad ar gyfer swyddi allweddol yn y Cyngor	Darparu cyllid ar gyfer recriwtio nifer o Hyfforddeion ar draws y Cyngor a fydd yn cynorthwyo i ddarparu staff sydd wedi eu hyfforddi yn dda, a hynny mewn swyddi sy'n aml yn anodd recriwtio iddynt.
Cyllid Corfforaethol	Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) Ad-daliadau terfynol Benthyciad Salix	216,190	Cyllido taliadau MRP terfynol (nad oes cyllideb ar eu cyfer) ar y benthyciadau Salix a ohiriwyd	Darparwyd cyllid gan wasanaethau ar gyfer flwyddyn gyntaf o'r benthyciadau Salix diweddar a byddant yn darparu cyllid bob blwyddyn yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Mae rhai prosiectau wedi llithro, ac arweiniodd hynny at oedi wrth dderbyn y benthyciadau a newidiadau yn amseriad yr ad-daliadau. Bydd cyllid gan y gwasanaethau ar gyfer yr ad-daliadau hyn a ohiriwyd yn cael eu cadw mewn cronfa wrth gefn tan y taliad olaf, fydd ddim yn derbyn cyllidebau gwasanaeth.
Economaidd a Rheoleiddio	Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREF) – Adfer Economaidd yn dilyn Covid	764,271	Cyllido costau adfer yn dilyn Covid yn y dyfodol	Cyllido cefnogaeth a phrosiectau adfer economaidd NWREF.
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	Addysg Allsirol	500,000	Cyllido cynnydd posib yn y galw a phwysau chwyddiant	Cyllido cynnydd yn y galw neu bwysau chwyddiant mewn perthynas â phlant sydd mewn lleoliadau allsirol.
Tai	Cronfa Wrth Gefn Hamperi Nadolig	8,873	Cyllido costau yn y dyfodol	Cyllido hamperi Nadolig 2022.

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa Wrth Gefn	Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn £	Rheswm dros greu cronfa Wrth Gefn Glustnodedig	Pwrrpas y Gronfa Wrth Gefn
Rheoleiddio ac Economaidd	Incwm net o'r Cydfenter, Unedau Diwydiannol Penrhos	7,818	Cynorthwyo i gwrdd â gofynion cytundeb Cydfenter	Casglu cyfran y Cyngor o incwm net blyneddol o osod Unedau Diwydiannol Penrhos er mwyn cyfrannu at gyllido prynu'r gyfran sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ar ôl 15 mlynedd o weithredu, yn unol â'r cytundeb cydfenter.
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Costau sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd	100,000	Cyllido costau sefydlu yn y dyfodol	Mae'r Cyngor wedi dod yn Awdurdod Iechyd Porthladd yn dilyn ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cynorthwyo i gyllido costau sefydlu pan fyddant yn codi.
Adnoddau – Budd-daliadau	Taliadau dewisol costau byw	585,163	Cyllido'r gost o roi cynllun Llywodraeth Cymru ar waith	Derbyniwyd cyllid grant ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r cynllun costau byw dewisol lleol.
Gwasanaethau Cymdeithasol	Pwysau Gofal Cymdeithasol	1,109,836	Cyllido costau posib yn y dyfodol	Cyllido costau gofal cymdeithasol posib yn y dyfodol sy'n codi oherwydd cynnydd yn y galw a / neu bwysau chwyddiant.
Gwasanaethau Cymdeithasol	Cerbydau Trydan Gwasanaethau Cymdeithasol	200,000	Cyllid ar gyfer rhoi polisi Llywodraeth Cymru ar gerbydau trydan ar waith	Prynu cerbydau trydan ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o gyflawni targed carbon sero net y Cyngor erbyn 2030.
Trawsnewid	Cyllid ar gyfer costau sy'n codi o drosglwyddo staff a chontractau Cynnal i'r Cyngor	88,200	Cyllido costau posib yn y dyfodol	Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ddod â gwasanaethau cefnogaeth TGC Cynnal i ysgolion i ben.
Dysgu	Dysgu Cymunedol i Oedolion - Grant Cynnal a Digidol	100,415	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant Strategaeth ADY	15,363	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant ôl-16	69,394	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
Dysgu	Grant Cerddoriaeth mewn Ysgolion	129,481	Grant na chafodd ei ddefnyddio	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn 2021/22 ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23.
	CYFANSWM	9,371,065		

6.2. Mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion llawn am y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar 31 Mawrth 2022, ond maent yn cael eu crynhoi, yn ôl eu pwrrpas, yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5

Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2022

	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021 £	Cyfraniadau I / (O) yn ystod 2021/22 £	Balans Cau ar 31 Mawrth 2022 £
Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Parhaus	2,045,642	4,152,154	6,197,796
Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Penodol	1,441,563	(1,032,949)	408,614
Cyllido Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	2,123,307	3,876,599	5,999,906
Gwella Prosesau Busnes	1,038,391	(247,532)	790,859
Cyllidebau Hapddigwyddiadau heb eu defnyddio y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol	713,077	38,695	751,772
Cronfeydd Wrth Gefn Dal Grantiau Cyfyngedig	2,009,641	1,464,057	3,473,698
Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	648,992	10,915	659,907
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig eraill ar gyfer prosiectau penodol	1,582,419	1,014,619	2,597,039
Cronfeydd Wrth Gefn heb eu cyfyngu sy'n dal Grantiau	2,276,815	(1,338,674)	938,141
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth	1,576,030	(211,786)	1,364,244
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG	15,455,876	7,726,098	23,181,975

7. BALANSAU YSGOLION

- 7.1. Mae lefel balansau Ysgolion wedi cynyddu o £3.974m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £7.827m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan bob ysgol waged, yn cynnwys y tair ysgol oedd â diffyg y llynedd. Mae Tabl 6 isod yn crynhoi'r balansau fesul sector:-

Tabl 6
Crynodeb o Falansau Ysgolion

Sector	Balans ar 1 Ebrill 2021 £'000	Symudiad yn ystod y flwyddyn £'000	Balans Cau ar 31 Mawrth 2022 £'000
Cynradd	3,057	1,883	4,940
Uwchradd	977	1,812	2,789
Arbennig	(60)	158	98
CYFANSWM	3,974	3,853	7,827

- 7.2. Mae'r cynnydd o £3.853m ym malansau ysgolion yn sylweddol ac mae'n adlewyrchu patrwm a nodwyd gan awdurdodau eraill. Y rhesymau am y cynnydd yw grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac effaith parhaus Covid-19 ar y galw yn 2021.

8. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI

- 8.1. Balans agoriadol y Cyfrif CRT ar 1 Ebrill 2021 oedd £9.723m. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd gwarged o £7.829m ar weithgareddau refeniw a gwariwyd £5.219m (heb gynnwys grantiau) ar waith cyfalaf a phrynu / datblygu eiddo newydd. Rhydd hyn waged net o £2.610m gan gynyddu balans y Cyfrif CRT i £12.333m. Mae'r balans hwn ar gael i gyllido buddsoddiad yn stoc y CRT yn y dyfodol.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

Tudalen 33

2021/22			Gwasanaethau	Nodyn	2020/21		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net			Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
77,393	(18,415)	58,978	Dysgu Gydol Oes		70,172	(16,017)	54,155
46,598	(16,887)	29,711	Gwasanaethau Oedolion		43,090	(14,175)	28,915
18,826	(6,201)	12,625	Gwasanaethau Plant		14,914	(4,141)	10,773
8,214	(6,484)	1,730	Tai		7,373	(6,091)	1,282
31,519	(9,192)	22,327	Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff		28,647	(9,055)	19,592
14,734	(9,333)	5,401	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd		11,420	(6,513)	4,907
6,653	(291)	6,362	Trawsnewid		5,754	(416)	5,338
31,969	(22,723)	9,246	Adnoddau		34,142	(25,642)	8,500
2,337	(427)	1,910	Busnes y Cyngor		1,962	(334)	1,628
2,996	(781)	2,215	Costau Corfforaethol a Democrataidd		3,843	(1,792)	2,051
588	-	588	Rheolaeth Gorfforaethol		522	-	522
26	-	26	Costau heb eu dosbarthu		7	-	7
16,029	(19,457)	(3,428)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		18,358	(19,080)	(722)
257,882	(110,191)	147,691	Diffyg ar Weithrediadau sy'n Parhau		240,204	(103,256)	136,948
		17,076	Gwariant Gweithredol arall	11			14,801
		9,559	Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi	12a			9,405
		(180,266)	Trethi ac incwm grant amhenodol	13			(171,473)
		(5,940)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(10,319)
		(5,412)	Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol	10c			(10,039)
		(72,063)	Ail-fesur rhwymedigaethau Pensiwn net	10c & 41			44,483
		(77,475)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				34,444
		(83,415)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				24,125

ATODIAD 3

MANTOLEN FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Eiddo, offer a chyfarpar	14	442,507	431,263
Asedau treftadaeth	16	2,283	2,265
Eiddo buddsoddi	17	6,117	5,619
Asedau anniriaethol		472	505
Dyledwyr tymor hir	22	109	111
Asedau tymor hir		451,488	439,763
Asedau a ddelir i'w gwerthu	19	672	461
Rhestrau stoc	21	296	339
Dyledwyr tymor byr	22	36,021	34,283
Buddsoddiadau tymor byr	41a	7,500	-
Arian a chywerthoedd arian	23	44,478	28,740
Asedau Cyfredol		88,967	63,823
Benthyca tymor byr	41	(4,564)	(2,158)
Credydwyr tymor byr	24	(31,142)	(28,035)
Darpariaethau tymor byr	25	(504)	(363)
Derbyniadau grantiau ymlaen llaw	34	(7,990)	(3,509)
Rhwymedigaethau Cyfredol		(44,200)	(34,065)
Credydwyr tymor hir	24	(163)	(156)
Darpariaethau tymor hir	25	(4,639)	(4,684)
Benthyca tymor hir	41	(122,677)	(124,258)
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	38	(121,199)	(176,261)
Rhwymedigaethau tymor hir		(248,678)	(305,359)
Asedau Net		247,577	164,162
Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	MIRS	57,772	39,980
Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	10	189,805	124,182
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn		247,577	164,162

CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2022

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol sy'n Parhau	Yswiriant	Talu am golledion heb eu hyswrio a thaliadau dros ben polisïau yswiriant.	Na	1,250,000	90,732	1,340,732	1,250,000	90,732
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cynllun Salwch Ysgolion Cynradd	Talu costau salwch mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn talu premiwm i'r gronfa wrth gefn.	Na	129,857	221,082	350,939	350,939	0
Eiddo	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cynllun Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion Cynradd	Mae balans y cyllid na chafodd ei ddefnyddio yn cael ei ddal i gwrdd â chostau uwch posib yn y dyfodol.	Na	25,647	(25,647)	0	0	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Gwaith Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf	Cyllido costau gritio / llifogydd sy'n uwch na'r disgwyl yn ystod tywydd garw'r gaeaf.	Na	94,480	0	94,480	94,480	0
Gwasanaethau Plant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Contractau Staff Gofal Cymdeithasol	Cyllido costau ychwanegol asiantaethau staffio os oes angen adnoddau staffio ychwanegol oherwydd bod y nifer sydd angen gofal yn cynyddu.	Na	271,714	0	271,714	271,714	0
Dysgu a Gwasanaethau Plant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cronfa Wrth Gefn Cyllido ar y Cyd	Darparu ar gyfer y posibilrwydd o golli incwm gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n cyllido ar y cyd. Ni ellir ei gynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth dyledion drwg.	Na	180,795	0	180,795	180,795	0
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Cronfa Wrth Gefn Cau Ysgolion	Cyllido cost adeiladau gwag / costau sefydlu ysgolion newydd.	Na	93,149	0	93,149	93,149	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Pwysau Gofal Cymdeithasol	Cyllido costau gofal cymdeithasol posib yn y dyfodol sy'n deillio o gynnydd yn y galw a / neu bwysau oherwydd chwyddiant.	Ydi	0	1,109,836	1,109,836	1,109,836	0
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol sy'n Parhau	Setliad refeniw ychwanegol yn 2021/22 ar gyfer pwysau oherwydd chwyddiant	Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau uwch oherwydd cynnydd mewn chwyddiant.	Ydi	0	2,256,150	2,256,150	2,256,150	0
Dysgu	Risg Gwasanaeth sy'n Parhau	Addysg Allsirol	Cyllido cynnydd yn y galw neu bwysau oherwydd chwyddiant ar gyfer plant sydd mewn lleoliadau allsirol.	Ydi	0	500,000	500,000	500,000	0
CYFANSWM COSTAU RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH SY'N PARHAU					2,045,642	4,152,154	6,197,796	6,107,064	90,732
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Rhesymoli Ysgolion	Cwrdd â chostau ychwanegol sy'n codi o foderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo.	Na	301,946	(111,029)	190,917	190,917	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Risg Gwasanaeth Penodol	Cynllun Datblygu Lleol	Cyllido costau ychwanegol cynhyrchu'r cynllun datblygu nesaf.	Na	152,697	0	152,697	152,697	0
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol Benodol	Tâl Cyfartal	Cyllido costau unrhyw hawliadau sy'n weddill, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill.	Na	47,012	(47,012)	0	0	0
Corfforaethol	Risg Gorfforaethol Benodol	Dyfarniad Cyflog	Cwrdd â chost dyfarniad cyflog sydd yn uwch na'r swm a ganiatawyd yng nghyllideb 2021/22.	Na	485,850	(485,850)	0	0	0
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Ad-dalu Ffyrlo	Cwrdd â chost ad-daliad y cytunwyd arno i Gronfa Caledi LIC yn codi o daliadau ffyrlo i staff arlwygo.	Na	399,114	(399,114)	0	0	0
Dysgu	Risg Gwasanaeth Penodol	Melin Llynnon	Cyllido cost gwaith adfer ar y Felin.	Na	54,945	10,055	65,000	65,000	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PENODOL					1,441,563	(1,032,949)	408,614	408,614	0
Corfforaethol	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cyfraniadau Refeniw heb eu Cymhwyso	Defnyddir fel ffynhonnell cyllid cyfalaf pryd a phan fydd angen.	Na	1,206,728	899,829	2,106,556	2,106,556	0
Dysgu	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Addysg – Symiau Cymudo	Symiau a glustnodwyd gan ddatblygwyr. Byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cytundeb.	Na	129,425	90,511	219,936	219,936	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cyfraniadau Datblygwr – Prifffyrdd	Symiau a glustnodwyd gan ddatblygwyr. Byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cytundeb.	Na	25,000	95,408	120,408	120,408	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Hamdden (Hawliad TAW)	Cyllido buddsoddiad cyfalaf yn y Canolfannau Hamdden yn y dyfodol.	Na	762,154	0	762,154	762,154	0
Dysgu	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Cronfa Ad-dalu TG Ysgolion	Cyllido dyfeisiau newydd mewn ysgolion i gymryd lle dyfeisiau a gyllidwyd yn wreiddiol trwy Grant HWB Llywodraeth Cymru.	Ydi	0	300,000	300,000	300,000	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol	Trwsio To Canolfan Addysg y Bont	Cyllido gwaith sylweddol ar y to yng Nghanolfan Addysg y Bont. Mae'r swm yn y gronfa wrth gefn yn adlewyrchu'r swm a ryddhawyd o'r balansau cyffredinol, ar ôl tynnu'r costau a gafwyd yn 2021/22.	Ydi	0	2,490,851	2,490,851	2,490,851	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWARIANT CYFALAF YN Y DYFODOL					2,123,307	3,876,599	5,999,906	5,999,906	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Cost Newid	Cronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi cyllido prosesau gwella busnes.	Na	231,828	(50,093)	181,735	0	181,735
Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Gwella Prosesau Busnes	Trawsnewid Gwasanaethau	Cyllid ar gyfer prosiectau trawsnewid yn y gwasanaethau cymdeithasol.	Na	32,525	(32,525)	0	0	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Adnoddau	Gwella Prosesau Busnes	Diweddarau systemau Refeniw a Budd-daliadau	Cyllido gwelliannau yn y systemau casglu incwm corfforaethol.	Na	24,762	(24,762)	0	0	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Buddsoddi i Arbed	Balans yr £1m a ddyrannwyd yn 2016/17 i gyllido prosiectau penodol. Balans heb ei ddefnyddio – CRM £47k, System Gynllunio £8k, Systemau Arian £25k, Gwefan yr Oriel £11k, Staff TG dros dro £47k, system Gwarchod y Cyhoedd £45k.	Na	183,856	(140,152)	43,704	43,704	0
Corfforaethol	Gwella Prosesau Busnes	Adfer yn dilyn Covid	£115k o gyllidebau teithio na chafodd eu defnyddio yn 2020/21, £250k o Barc Adfer, £200k o Gyfraniadau Refeniw na chafodd eu cymhwyso.	Na	565,420	0	565,420	0	565,420
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWELLA BUSNES					1,038,391	(247,532)	790,859	43,704	747,155
Tai	Cyllidebau Hapddigwyddiadau na chafodd eu defnyddio	Tai Fforddiadwy	Balans y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag na chafodd ei ddefnyddio.	Na	453,667	(32,299)	421,368	421,368	0
Corfforaethol	Cyllidebau Hapddigwyddiadau na chafodd eu defnyddio	Cronfeydd Hapddigwyddiadau Cyfyngedig	Balans cyllidebau corfforaethol na chafodd eu defnyddio sydd ei angen fel cyfraniad at brosiect STEM a Bid Tŵf GC.	Na	259,410	70,994	330,404	330,404	0
CYFANSWM CYLLIDEBAU HAPDDIGWYDDIADAU NA CHAFODD EU DEFNYDDIO					713,077	38,695	751,772	751,772	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cronfa Wrth Gefn Gwastraff / Ailgylchu	Mae Grant yr Economi Gylchol wedi cymryd lle y gyllideb graidd. Arbedion o'r gyllideb graidd i'w cadw mewn cronfa wrth gefn i dalu am brosiectau gwyrdd.	Na	500,000	0	500,000	0	500,000

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Priffordd Maes Awyr	Grant Maes Awyr Môn na chafodd ei ddefnyddio.	Na	69,518	(29,085)	40,433	69,518	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig Grantiau Prifffyrdd – Grant Llifogydd	Grant llifogydd na chafodd ei ddefnyddio – gellir ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol neu i gyllido costau reffeniw. Angen gwirio gyda'r gwasanaeth.	Na	36,473	0	36,473	36,473	0
Trawsnewid	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	SCWDP	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	5,596	(5,596)	0	0	0
Tai	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Gweinyddu Cefnogi Pobl	Grant na chafodd ei ddefnyddio sy'n cyllido costau staff cefnogi pobl ychwanegol nad yw'r grant yn eu talu.	Na	559,489	(4,544)	554,945	554,945	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Isadeiledd Arosfannau Bysiau	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	85,671	0	85,671	85,671	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grantiau Ysgolion Bach ac Ysgolion Gwledig	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	33,244	(9,323)	23,921	23,921	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Diogelwch Covid mewn Ysgolion	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	103,426	(94,370)	9,056	9,056	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Coridor Gwyrdd	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	85,000	(85,000)	0	0	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Stormydd	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	186,316	(39,825)	146,491	146,491	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant AHNE	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	14,261	(14,261)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Iechyd Cyhoeddus Cymru – Beiciau Sbin	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	17,000	(17,000)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cydlunydd Clefyd Coed Ynn	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	24,775	(24,775)	0	0	0
Busnes y Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Diwygio Etholiadau	Grant na chafodd ei ddefnyddio – i'w ddefnyddio yn 2021/22.	Na	21,000	(9,770)	11,230	11,230	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	TRAC	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Na	267,872	(66,480)	201,392	201,392	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Dysgu Cymunedol i Oedolion – Grant Cynnal a Digidol	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	100,415	100,415	100,415	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Strategaeth ADY	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	15,363	15,363	15,363	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Ōl-16	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	69,394	69,394	69,394	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cerddoriaeth mewn Ysgolion	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	129,481	129,481	129,481	0
Adnoddau	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Taliadau Dewisol Costau Byw	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	585,163	585,163	585,163	0
Gwasanaethau Oedolion	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Cerbydau Trydan	Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na chafodd ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.	Ydi	0	200,000	200,000	200,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig sy'n dal Grantiau	Grant Adfer Economaidd	Grant na chafodd ei ddefnyddio.	Ydi	0	764,271	764,271	764,271	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG SY'N DAL GRANTIAU					2,009,641	1,464,057	3,473,698	2,973,698	500,000
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Incwm Proses Ailgylchu	Amod y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yw bod incwm o ailgylchu yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau / prosiectau ailgylchu. Dyma falans yr incwm na chafodd ei ddefnyddio. Mae angen i'r gwasanaeth benderfynu sut i'w ddefnyddio.	Na	635,130	0	635,130	635,130	0
Dysgu	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Cronfa Brynu'r Amgueddfa	Rhoddion i'r Oriel er mwyn prynu eitemau newydd. Nid yw'r arian ar gael i gyllido gwariant y Cyngor.	Na	7,301	4,043	11,363	11,363	0
Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Ffioedd y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB)	Ffioedd ceisiadau cynllunio i'w defnyddio i gyllido costau yn y dyfodol mewn perthynas â'r ceisiadau.	Na	6,560	(2,020)	4,540	4,540	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Tai	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill	Hamperi Nadolig y Gwasanaeth Tai	Cyllido Hamperi Nadolig 2022.	Ydi	0	8,873	8,873	8,873	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG ERAILL					648,992	10,915	659,907	659,907	0
Adnoddau a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Ffi Gweinyddu Grantiau Busnes Covid	Balans y Grant gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd wrth brosesu Grantiau Busnes Covid. Mae'n cael ei ddefnyddio i gyllido adnoddau ychwanegol i ddelio â gwaith sydd wedi pentyrru.	Na	319,801	(319,801)	0	0	0
Adnoddau	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu cyfyngu sy'n dal Grantiau	Ffi Weinyddol Taliadau Hunan ynysu	Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau prosesu taliadau hunan ynysu. Ar hyn o bryd, mae'n cyllido aelod ychwanegol o staff.	Na	25,781	45,032	70,813	70,813	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Trawsnewid Digidol	Grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido prosiectau i wella trawsnewid digidol.	Na	581,304	(497,347)	83,957	0	83,957
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Cefnogi Arbedion	Grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyllido unrhyw ddiffyg yn y gyllideb sy'n deillio o anawsterau a wynebwyd gan Gyngorau yn 2020/21 i gyflawni arbedion cyllidebol a gynlluniwyd.	Na	581,304	(581,304)	0	0	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau	Cyllid Caledi Covid - Casglu'r Dreth Gyngor	Grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu colledion incwm y Dreth Gyngor oherwydd cynnydd posib mewn dyledion y mae'n rhaid eu dileu oherwydd Covid.	Na	768,625	14,746	783,371	783,371	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN HEB EU CYFYNGU SY'N DAL GRANTIAU					2,276,815	(1,338,674)	938,141	854,184	83,957

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Trwyddedau	Cyllido meddalwedd newydd trwyddedau ond ni nodwyd unrhyw feddalwedd addas.	Na	16,570	(16,570)	0	0	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Ynys Ynni	Cyllido cost asesu a chefnogi datblygiadau Ynys Ynni yn y dyfodol.	Na	179,887	89,133	269,020	269,020	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cronfa Wrth Gefn Datblygiadau Mawr	Balans y cyllid a ddefnyddiwyd mewn perthynas ag amser Prif Swyddogion trwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio.	Na	177,352	0	177,352	177,352	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Datblygiadau Mawr – Ffioedd Cynllunio	Dyma'r ffioedd cynllunio ychwanegol o ddatblygiadau mawr, a fyddai wedi cyllido'r gost o ddelio gyda cheisiadau yn y dyfodol.	Na	392,456	0	392,456	392,456	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Gwaith Archeolegol yn Wylfa	Cyfraniad olaf gan Horizon i gyllido gwaith yn y dyfodol.	Ydi	625,000	0	625,000	625,000	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Astudiaeth Dichonoldeb – Ysgol Uwchradd Caergybi	Cyllido cost asesiad pellach o gyflwr y to yn Ysgol Uwchradd Caergybi.	Ydi	15,000	0	15,000	15,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Model Rhagfynegi Dŵr Ymdrochi	Talu costau cynnal a chadw'r offer monitro.	Na	9,725	(440)	9,285	9,285	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Medrusrwydd a Chapasiti Cynllunio	Mae'n rhaid ail-fuddsoddi canran o'r ffioedd cynllunio yn y gwasanaeth cynllunio.	Na	166,429	101,228	267,657	267,657	0
Trawnewid – AD	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cynllun Hyfforddeion	Darparu cyllid ar gyfer recriwtio nifer o Hyfforddeion ar draws y Cyngor a fydd yn cynorthwyo i ddarparu staff sydd wedi eu hyfforddi yn dda, a hynny mewn swyddi sy'n aml yn anodd recriwtio iddynt.	Ydi	0	219,060	219,060	219,060	0
Trawsnewid	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cynnal	Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ddod â gwasanaethau cefnogi TGCh Cynnal ar gyfer ysgolion i ben.	Ydi	0	88,200	88,200	88,200	0
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ffi Weinyddol Cronfa ar y Cyd	Cyfraniad at gostau gweinyddol y corff arweiniol ar gyfer gweinyddu cronfa ar y cyd Gwasanaethau Oedolion.	Ydi	0	10,000	10,000	10,000	0

Gwasanaeth	Categori	Cronfa Wrth Gefn	Disgrifiad	Newydd yn 2021/22	Balans ar 1 Ebrill 2021 £	Symudiad yn ystod y Flwyddyn £	Balans ar 31 Mawrth 2022 £	Wedi'i ymrwymo / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £	Ar gael i'w ddefnyddio £
Gwasanaethau Plant	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Cyfraniad at Gymorthyddion Dysgu y Gwasasnaethau Plant	Cyllido cymorthyddion dysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant ag anghenion gofal cymdeithasol.	Ydi	0	200,000	200,000	200,000	0
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ad-daliad Cyd-fenter Stad Ddiwydiannol Caergybi	Casglu cyfran y Cyngor o'r incwm net blyneddol o osod unedau Diwydiannol Penrhos er mwyn cyfrannu at gyllido prynu'r gyfran sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ar ôl 15 mlynedd o weithredu, yn unol â'r cytundeb cyd-fenter.	Ydi	0	7,818	7,818	7,818	0
Rheoleiddio - Gwarchod y Cyhoedd	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd	Mae'r Cyngor wedi dod yn Awdurdod Iechyd Porthladd yn dilyn ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cynorthwyo i gyllido costau sefydlu pan fyddant yn codi.	Ydi	0	100,000	100,000	100,000	0
Corfforaethol	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol	Ad-dalu benthygiad Salix	Cyllido taliadau MRP terfynol (nad oes cyllideb ar eu cyfer) ar fenthyciadau Salix a ohiriwyd.	Ydi	0	216,190	216,190	216,190	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD AR GYFER PROSIECTAU PENODOL					1,582,419	1,014,619	2,597,039	2,597,039	0
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG					13,879,847	7,937,884	21,817,731	20,395,887	1,421,844

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	19 GORFFENNAF 2022
PWNC:	FFIOEDD CARTREFI PRESWYL A NYRSIO 2022/23
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU) Y CYNGHORYDD ALUN ROBERTS – AELOD PORTFFOLIO (GWASANAETHAU OEDOLION)
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 ARWEL WYN OWEN – PENNAETH GWASANAETH OEDOLION
AWDUR YR ADRODDIAD:	MARC JONES
FFÔN:	01248 752601
E-BOST:	rmjfi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Pob Aelod

A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau

- (i) Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo cynyddu'r ffioedd ar gyfer gofal preswyl a nyrsio fel y nodir yn y tabl isod:-

Categori	Y ffi wreiddiol ar gyfer 2022/23	Y ffi arfaethedig ar gyfer 2022/23	Cynnydd o'r ffi wreiddiol ar gyfer 2022/23
Preswyl	£636.80	£643.78	£6.98
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£707.17	£772.29	£65.12
Nyrsio	£703.79*	£752.26*	£48.47
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£800.88*	£896.19*	£95.31

Noder nad yw'r ffioedd sydd wedi'u marcio â * yn cynnwys y cyfraniad iechyd tuag at ofal nyrsio, sydd ar hyn o bryd yn £179.97.

- (ii) Bod y newid yn y ffioedd yn dod yn weithredol o'r wythnos yn dechrau 17 Gorffennaf 2022, fydd yn caniatáu amser i adael i'r cleientiaid a'r cartrefi wybod am y newid a sicrhau fod y newid yn cyd-fynd â'r patrwm anfonebu.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd pob math o wahanol opsiynau, ynghyd â pheidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r ffioedd ar gyfer 2022/23. Mae'r opsiwn arfaethedig yn cydnabod y cynnydd mewn costau a wynebwr gan ddarparwyr, ac mae'n cadw at y pecyn cymorth rhanbarthol fel dull o gyfrifo'r ffioedd, yn ogystal â chydabod y pwysau cynyddol a wynebwr gan ddarparwyr oherwydd chwyddiant.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae pennu ac adolygu'r ffioedd a delir i gartrefi nyrsio a phreswyl yn fater a ddirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Mae sail y penderfyniad yn gyson â pholisi'r Cyngor i ddefnyddio'r pecyn cymorth rhanbarthol i bennu lefel y ffi ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Mae'r Cyngor wedi pennu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23. Bydd y costau ychwanegol yn sgil y penderfyniad hwn yn cael eu cyllido o gronfeydd a chyllidebau wrth gefn clustnodedig.		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd yr adolygiad yn lleihau'r risg o ddiffyg yn y farchnad a sicrhau bod cartrefi gofal ar yr Ynys yn dal i weithredu a chwrdd ag anghenion cleientiaid i'r dyfodol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Heb gynyddu'r ffioedd, mae risg y gallai'r farchnad sector breifat fethu, gan arwain at anghydwysedd o ran y cyflenwad a'r galw, ac fe allai hynny gynyddu costau hyd yn oed yn fwy ac arwain at orddibyniaeth ar nifer lai o ddarparwyr.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy	Pennwyd y ffioedd preswyl a nyrsio yn dilyn trafodaethau rhanbarthol blynyddol. Mae'r cynnydd arfaethedig hwn yn dilyn trafodaethau pellach a gynhaliwyd rhwng y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru ar lefel rheoli Gwasanaeth a chan dimau Cyllid.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut.	Mae'r cynnydd arfaethedig yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr sector breifat a theuluoedd cleientiaid sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi preswyl a nyrsio.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ni fydd y cynigion yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Yn sgil y penderfyniad i gynyddu'r ffioedd a delir, efallai y bydd darparwyr preifat yn dewis lleihau neu beidio â chodi ffioedd atodol ar gleientiaid o gwbl, rhai a all fod yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Heb ganfod unrhyw effaith.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 Finance (gorfodol)	Amherthnasol – dyma adroddiad y Swyddog Adran 151.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed ganddi wedi cael eu hystyried wrth i'r UDA drafod yr adroddiad.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol

6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Amherthnasol
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> Atodiad 1 – Adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd a delir 		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> Pwyllgor Gwaith – 3 Mawrth 2022 – Eitem 13 – Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23 		

FFIOEDD CARTREFI GOFAL DIWYGIEDIG 2022/23**1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn pennu'r ffi safonol mewn perthynas â lleoliadau cartrefi preswyl a nyrsio. Pennir ffi ar gyfer y 4 math gwahanol o leoliad (Preswyl, Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl, Nyrsio a Nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl).
- 1.2** Pennir y ffioedd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth rhanbarthol a gytunwyd, sydd yn addasiad o becyn cymorth Laing & Buisson, ac mae'r prisiau ar gyfer gwahanol benawdau gwariant yn cael eu huwchraddio'n flynyddol yn seiliedig ar asesiad y gweithgor sy'n cynnwys swyddogion o'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Wrth gwblhau'r asesiad, mae'r Gweithgor yn ystyried gwybodaeth yn ymwneud â chostau a ddarperir gan sampl o ddarparwyr ar draws y 4 math gwahanol o ddarpariaeth gofal.
- 1.3** Mae'r ffioedd a gytunwyd ym mis Mawrth 2022 ar gyfer 2022/23 i'w gweld yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1
Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio 2022/23

Categori	2021/22	2022/23	Cynnydd	% Cynnydd
Preswyl	£596.01	£636.80	£40.79	6.84%
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£631.40	£707.17	£75.77	12.00%
Nyrsio	£657.04	£703.79	£45.75	7.12%
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£715.07	£800.88	£85.81	12.00%

- 1.4** Roedd y cynnydd yn y ffi yn seiliedig ar y cynnydd mewn costau cyflogau i sicrhau bod darparwyr mewn sefyllfa i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd mewn costau heb fod yn rhai gofal yn seiliedig ar y gyfradd chwyddant pan gafodd y ffioedd eu pennu ynghyd â'r rhagolygon chwyddiant i'r dyfodol. Mae Ynys Môn wedi gwro oddi wrth y model rhanbarthol drwy gynyddu'r elw ar fuddsoddiad ar gyfer gofal Preswyl a Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl, er mwyn annog buddsoddiad yn y ddau faes hwn gan mai dim ond nifer gyfyngedig o welyau sydd ar gael ar yr Ynys.
- 1.5** Yn dilyn cyhoeddi'r ffioedd ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan gartrefi gofal unigol a'r sector yn gyffredinol. Roeddent o'r farn nad oedd y ffi'n ddigonol i gwrdd â'r costau gofal gwirioneddol yn enwedig oherwydd bod chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r Gweithgor benderfynu ar lefel y chwyddiant, yn enwedig mewn perthynas â chostau ynni a bwyd.

2. Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R FFIOEDD AR GYFER 2022/23

- 2.1** Mae cynaliadwyedd y sector cartrefi gofal yn ystyriaeth bwysig i'r Cyngor ac, wrth bennu'r ffioedd, mae'n rhaid ystyried gwir gost y ddarpariaeth gofal a sicrhau cynaliadwyedd y farchnad i'r dyfodol.
- 2.2** Ystyrir bod y model rhanbarthol yn dal i fod yn arf bwysig ar gyfer pennu'r ffioedd yn flynyddol a rhaid unrhyw newidiadau fod yn seiliedig ar allbwn y pecyn cymorth. Fodd bynnag, rhaid i'r ffactorau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran y costau y mae cartrefi gofal yn eu hwynebu.

- 2.3** Ar ôl ystyried sylwadau'r cartrefi unigol a'r sector yn gyffredinol, a'r cynnydd cyflym mewn chwyddiant, yn benodol yn dilyn y rhyfel yn Wcráin, bernir y dylid adolygu'r strwythur ffioedd presennol ar gyfer 2022/23.
- 2.4** Dylid nodi hefyd bod y gwahaniaeth rhwng y ffioedd a delir yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â'r cyfraddau a delir yn Ne Cymru wedi bod yn destun adroddiadau yn y wasg, yn cynnwys sylwadau negyddol bod y ffioedd a delir yng Ngogledd Cymru'n rhy isel. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r farn bod y ffioedd a bennwyd yn adlewyrchiad teg o'r costau a wynebwyd gan gartrefi gofal pan aethpwyd ati i bennu'r ffioedd, ac nad oedd modd rhagweld y cynnydd cyflym mewn chwyddiant ar yr adeg.
- 2.5** Er bod y ffi ar gyfer gofal i Henoed Bregus eu Meddwl wedi cynyddu 12% yn 2022/23, o'i gymharu â 7% ar gyfer gofal preswyl a nyrsio safonol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Henoed Bregus eu Meddwl yn dal i fod yn brin ac mae darparwyr yn codi ffioedd uwch ar breswylwyr drwy godi ffioedd atodol. Cafodd hyn ei ystyried yn ogystal wrth ailasesu'r ffioedd ar gyfer 2022/23.
- 2.6** Dylid nodi hefyd bod risg na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i gomisiynu lleoliadau newydd ar y lefel ffioedd presennol, ac y gallai cartrefi wrthod derbyn lleoliadau newydd. Bydd hyn yn arwain at oedi wrth drosglwyddo cleientiaid o'r ysbyty neu pan fydd cleientiaid bregus yn byw yn eu cartrefi eu hunain ac, o ganlyniad, mae'n bosib na fydd y Cyngor yn gallu cwrdd ag anghenion y cleient ym mhob achos os bydd y sefyllfa'n parhau.
- 2.7** Cynigir felly bod y lefel chwyddiant (CPI) a ddefnyddiwyd yn y pecyn cymorth gwreiddiol yn cael ei gynyddu o 3.1% i'w lefel bresennol, sef 9%, ar draws y pedwar sector. Yn ogystal, bod yr oriau gofal ar gyfer y sector Preswyl i Henoed Bregus eu Meddwl a'r sectorau Nyrsio a Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl yn seiliedig ar gyfartaledd y model Laing & Buisson safonol a'r oriau a awgrymwyd gan y darparwyr.
- 2.8** Yn seiliedig ar y newidiadau uchod, mae'r ffioedd arfaethedig i'w gweld yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Y Ffioedd Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer 2022/23

Categori	Y ffi wythnosol wreiddiol ar gyfer 2022/23	Y ffi wythnosol arfaethedig ar gyfer 2022/23	Cynnydd o'r ffi wythnosol wreiddiol ar gyfer 2022/23
Preswyl	£636.80	£643.78	£6.98
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£707.17	£772.29	£65.12
Nyrsio	£703.79*	£752.26*	£48.47
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£800.88*	£896.19*	£95.31

Noder nad yw'r ffioedd sydd wedi'u marcio â * yn cynnwys y cyfraniad iechyd tuag at ofal nyrsio, sydd ar hyn o bryd yn £179.97.

- 2.9** Er mwyn rhoi digon o amser i hysbysu cleientiaid a chartrefi ynglŷn â'r newid, ac i sicrhau bod y newid yn cyd-fynd â'r patrwm anfonebu, cynigir bod y newid yn dod yn weithredol ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu presennol, sef 17 Gorffennaf 2022.
- 2.10** Wrth roi'r ffioedd hyn ar waith ar 17 Gorffennaf 2022, rhagdybir y bydd y gost ychwanegol i'r Cyngor tua £227,000. Fe all y costau gwirioneddol amrywio yn ddibynnol ar nifer y cleientiaid ym mhob category.

- 2.11** Mae £2.25m wedi'i glustnodi yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor i ymorol am gostau'n gysylltiedig â chwyddiant yn 2022/23, a bydd yr arian a glustnodwyd yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau ychwanegol.
- 2.12** Bydd y newid arfaethedig hefyd yn cynyddu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24, a bydd angen gwneud addasiad o £323,000 i'r gyllideb sylfaenol fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24.

3. EFFAITH Y NEWID ARFAETHEDIG

- 3.1** Bydd y ffioedd arfaethedig yn golygu bod y ffioedd safonol a delir gan Ynys Môn yn uwch na'r ffi gyfartalog yng Nghymru.
- 3.2** Bydd y cynnydd arfaethedig, a'r ffaith bod y Cyngor wedi ystyried y costau presennol a wynebwr gan ddarparwyr, yn lliniaru'r risg o her gyfreithiol gan ddarparwyr.
- 3.3** Bydd y cynnydd yn galluogi'r Cyngor i gael trafodaeth gyda darparwyr ynglŷn â'r angen i godi ffioedd atodol ar deuluoedd preswylwyr sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi.
- 3.4** Mae'r ffaith bod y newid arfaethedig yn dal i fod yn seiliedig ar y pecyn cymorth rhanbarthol yn golygu bod methodoleg gyson wedi cael ei defnyddio wrth bennu'r ffioedd ac y gall y Cyngor barhau i ddibynnu ar y dull hwn yn y dyfodol, er y nodir ei bod hi'n bosib y bydd Cyngorau eraill yn symud oddi wrth y pecyn cymorth a'r dull rhanbarthol.

Bydd y cynnydd yn helpu i gynnal y ddarpariaeth ac yn annog darpariaeth fwy arbenigol a fydd yn cyfrannu tuag at nod y Cyngor o ddiogelu a sicrhau lleoliadau ar Ynys Môn i drigolion Ynys Môn.

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19eg Gorffennaf
Pwnc / Testun:	Dyfodol yr Uned Cynllunio Polisi ar y Cyd (Ynys Môn a Gwynedd)
Deilydd(ion) Portffolio:	Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch, Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	Dewi F Jones
Tel:	2420
E-bost:	DewiJones@ynysMôn.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Perthnasol i bob Aelod Etholedig

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhellion:

1. Estyniad i'r cytundeb cydweithio cyfredol ar gyfer darpariaeth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd hyd at 31 Mawrth 2023.
2. Bod y cytundeb cydweithio ac felly yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dod i ben ar y 31 Mawrth 2023, a bod yna cytundeb mewn egwyddor i Tîm Polisi Cynllunio newydd cael ei greu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.
3. Bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.
4. Bod trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a materion polisi cynllunio perthnasol yn cael eu cyflwyno ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.
5. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gytuno ar drefniadau cydweithio gydag Gwynedd, mewn ymgynghoriad hefo'r Prif Weithredwr, i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gwrdd a'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig), sydd ei angen ar gyfer Mônitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Cefndir

Sefydlwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) gan Gyngor Sir Ynys Môn a Cyngor Gwynedd ar 1 Mai 2011, ac yn dilyn hynny cytunwyd ar gytundeb cydweithio ar gyfer gweithrediad y UPCC oedd yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2017. Prif ddyletswydd y UPCC ar y pryd oedd paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd y ddau awdurdod cynllunio lleol.

Roedd y ddau awdurdod ar y pryd yn cytuno fod achos busnes cryf ar gyfer sefydlu'r trefniant cydweithio, a cafodd hynny ei dystiolaethu yn dilyn adolygiad o'r UPCC yn 2017, gwnaeth amlygu'r buddion cynllunio ac ariannol i'r ddau awdurdod oedd yn cynnwys:

- a. Creu gwasanaeth mwy gwydn gyda llawer o arbenigedd ar draws nifer o feysydd cynllunio.
- b. Cynllunio ar lefel fwy strategol ac integreiddio polisiau trawsffiniol.
- c. Cyfuno ymdrechion ar gyfer mynd i'r afael ar faterion lleol sydd yn bwysig i'r ddau awdurdod.
- d. Rhannu costau 50/50, ac felly gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ddau awdurdod ac arbed costau i'r awdurdodau.
- e. Mynd i'r afael yn llawn a'r materion er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gadarn.

Yn dilyn yr adolygiad o'r UPCC yn 2017, roedd y ddau awdurdod yn cytuno fod yna dal achos busnes cryf ar gyfer parhau gyda'r trefniant cydweithio, ac ym mis Mawrth 2017 cytunwyd i barhau gyda'r trefniant hyd at 31 Gorffennaf 2022.

Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017, mae prif waith y UPCC wedi cynnwys Mônitro'r cynllun a paratoi adroddiadau Mônitro blynyddol, paratoi canllawiau cynllunio atodol, rhoi arweiniad polisi cynllunio i Wasanaethau Cynllunio'r ddau awdurdod, ymateb i ymgynghoriadau gan Llywodraeth Cymru a chychwyn ar y broses o adolygu'r cynllun. Ym mis Mawrth 2022, cyflawnwyd y cam cyntaf yn y broses adolygu pan gafwyd sêl bendith y Cynghorau Llawn, i gyhoeddi a chyflwyno'r Adroddiad Adolygu i Llywodraeth Cymru.

Y prif waith nesaf sydd ar y gweill i'r UPCC yw paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ac mae'r gwaith yma'n flaenoriaeth uchel i'r ddau Awdurdod. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys trosolwg o'r camau a'r broses o baratoi Cynllun Newydd.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Gan fod y cytundeb cydweithio yn dod i ben diwedd Gorffennaf 2022, mae trafodaethau lefel uchel wedi bod rhwng swyddogion y ddau awdurdod dros y misoedd diwethaf ynglŷn a dyfodol yr UPCC. Daethpwyd i gasgliad ar y cyd y dylid argymhell i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ac i Gabinet Cyngor Gwynedd, i fwrw ymlaen gyda phroses i ddirwyn y trefniant cydweithio presennol i ben.

Mae'r hyn sydd yn cael ei argymhell gan y ddau awdurdod wedi ei wneud gan roi ystyriaeth i'r flaenoriaeth uchel sydd yna i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a'r hyn sydd wedi newid ers i'r trefniant cydweithio gael ei sefydlu yn 2011.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ddau brif opsiwn oedd yn agored i'r awdurdodau ar gyfer darparu capasiti ac arbenigaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol, gan edrych ar beth fuasai'r opsiwn yn gynnwys, yn ogystal ac ystyriaeth o unrhyw fuddion a chyfleoedd, anfanteision a risgiau i Ynys Môn yn sgil hynny. Mae'r isod felly'n cynnwys asesiad o'r ddau brif opsiwn a'r holl faterion sydd wedi eu hystyried:

Opsiwn 1: Parhau gyda'r trefniant cydweithio cyfredol

Buasai opsiwn 1 yn cynnwys:

- a. Cytundeb cydweithio newydd ar gyfer gweithrediad y UPCC am gyfnod o 4 mlynedd o leiaf.
- b. Cytundeb newydd ar gyfer darparu a chefnogi'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- c. Paratoi un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd.

Buasai opsiwn 1 yn golygu y buasai angen penderfyniad debyg i'r un wnaethpwyd gan y ddau Awdurdod yn ôl yn 2011, cyn cychwyn y broses o baratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'n dilyn felly y gall y buddion i'r ddau awdurdod sydd wedi cael eu hamlinellu uchod, hefyd fod yn berthnasol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Newydd. Rhaid hefyd ystyried fod yna fanteision yn gysylltiedig a'r ffaith fod:

- a. Y Tim (gwasanaeth) o 8 o swyddogion parhaol eisoes wedi ei sefydlu ynghyd a'r holl weithdrefnau perthnasol, a gyda profiad eisoes o baratoi Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei fabwysiadu.
- b. Trefniadau llywodraethu wedi eu sefydlu ynghyd a threfniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- c. Y costau'n cael eu rhannu rhwng y ddau awdurdod fydd yn arbed arian i'r ddau awdurdod.

Gan nodi'r manteision uchod, mae'n rhaid ar yr un pryd cydnabod fod y cyd-destun cynllunio'n genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol wedi newid gryn dipyn ers i'r ddau awdurdod gytuno i sefydlu trefniadau cydweithio yn 2011. Ar yr un pryd mae dyheadau'r ddau awdurdod erbyn hyn, yn dra wahanol i'r sefyllfa yn ôl yn 2011. Tra'n derbyn fod manteision yn deillio o barhau gyda'r trefniadau cydweithio cyfredol, gall yr anfanteision a'r risgiau posib gynnwys:

- a. Yr angen i barhau i adrodd i ddau awdurdod gyda'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd a gwaith polisi cysylltiedig.
- b. Ydy paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd, am gwrdd a gweledigaeth a dyheadau unigol y ddau awdurdod ac oes modd paratoi Cynllun cadarn fydd yn cyflawni hynny?
- c. Sefydlu'r Cyd Bwyllgor Corfforedig sydd gyda'r gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, sydd yn haen newydd o bolisi cynllunio nad oedd yn bodoli pan grëwyd y GPPC yn 2011. Mae ansicrwydd ynglŷn a beth fydd effaith hyn ar Wasanaethau Polisi Cynllunio Lleol o ran adnoddau ac ati rwan ac i'r dymor, gyda hyn yn fater sydd rhaid ei ystyried gan yr awdurdodau'n unigol.

2.0 Opsiwn 2: Dod a'r trefniant cydweithio i ben

Dyma'r opsiwn mae'r ddau Awdurdod yn argymhell i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ac i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Buasai'r opsiwn yma'n cynnwys:

- a. Diddymu'r UPCC a chreu Timau Polisi Cynllunio ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod.
- b. Bod yr awdurdodau yn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd ar wahân ar gyfer eu hardaloedd.
- c. Diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a chael trefniadau ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod, fydd yn bwydo mewn i, a gwneud penderfyniadau wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gwaith polisi cynllunio perthnasol.
- d. Parhau i gydweithio ar y gwaith sydd yn rhaid ei wneud i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Mae'r manteision a'r cyfleoedd gydag opsiwn 2 yn cynnwys:

- a. Creu Tîm Polisi Cynllunio newydd sydd yn rhoi perchnogaeth cant y cant i Ynys Môn ac yn canolbwyntio ar anghenion trigolion awdurdod cynllunio Ynys Môn.
- b. Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd sydd gyda gweledigaeth ar gyfer ardal awdurdod Cynllunio Ynys Môn, a gyda polisiau cynllunio lleol sydd yn hwyluso hynny.
- c. Y mewnbwn gwleidyddol i'r broses o baratoi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, wedi ei gyfyngu i Aelodau Cyngor Ynys Môn yn unig.
- d. Yr angen i adrodd i un awdurdod yn unig wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gwaith polisi cynllunio perthnasol.
- e. Cyfle i fanteisio ar arbenigedd y Tîm Polisi Cynllunio newydd i arwain ar brosiectau neu i gynnal gwaith ymchwil sydd yn bwysig i Ynys Môn.
- f. Cyfleoedd datblygol i staff ac i edrych ar strwythur Gwasanaeth Polisi Cynllunio sydd yn cwrdd ag anghenion Ynys Môn.
- g. Cyfleoedd i ystyried y galw posib ar adnoddau staff y Tîm Polisi Cynllunio Ynys Môn, yn sgil y gwaith fydd yn mynd ymlaen i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Gogledd Cymru.
- h. Cyfleoedd i gael mewnbwn a dylanwad Ynys Môn ar y broses o baratoi y Cynllun Datblygu Strategol.
- i. Cyfleoedd i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn Ynys Môn gan nodi y bydd gofynion y Llywodraeth o ran paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn newid ar ôl i'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei fabwysiadu, gyda'r gofyn wedyn i awdurdodau cynllunio baratoi Cynllun Datblygu Lleol Cryno ("lite").
- j. Cyfleoedd i barhau i gydweithio gydag Gwynedd ac awdurdodau eraill pan fod manteision yn deillio o hynny.

Gellir gweld o'r uchod fod gryn dipyn o newid wedi bod yn y cyd-destun polisi cynllunio ers 2011, yn enwedig ar lefel rhanbarthol gyda'r gofyn statudol am Gynlluniau Datblygu Strategol. Y prif gyfleoedd mae'r opsiwn yma yn ei gynnig yw rhoi perchnogaeth o materion Polisi Cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol Newydd i Ynys Môn, fydd drwy hynny'n canolbwyntio ar gwrdd a gweledigaeth a dyheadau Ynys Môn ac anghenion trigolion yr Ynys. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i geisio cynllunio ar gyfer anghenion Tîm Polisi Cynllunio Ynys Môn ar gyfer y dyfodol, gan ystyried goblygiadau'r Cynllun Datblygu Strategol.

Mae angen hefyd ystyried yr oblygiadau, heriau a risgiau posib fuasai'n deillio o ddod a'r trefniant cydweithio i ben a fuasai'n cynnwys:

Creu Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Ynys Môn

Bydd hyn yn oedi'r broses o gychwyn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan y bydd angen sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd yn y lle cyntaf.

Mae 8 swydd llawn amser yn y Gwasanaeth ar hyn o bryd, sydd yn cymharu gyda 12 pan sefydlwyd y UPCC yn 2011 (7 o Gwynedd a 5 o Ynys Môn).

Rhagwelir y bydd angen sefydlu Tîm cadarn a galluog o cynllunwyr parhaol (yn cynnwys Rheolwr) newydd i ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn. Mae'r sail i'r strwythur newydd a'r costau ychwanegol yn cynnwys:

- a. Gan gydnabod y maes gwaith a'r dyletswyddau cysylltiedig (gweler isod) mae'n hanfodol creu Tîm Cynllunio Polisi ar gyfer Ynys Môn gyda Rheolwr.
- b. Yr angen i roi y cyfleoedd gorau i'r Cyngor recriwtio swyddogion cynllunio ar lefel briodol, er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Tîm Polisi Cynllunio newydd.
- c. Bydd prif waith y Gwasanaeth yn cynnwys paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- d. Bydd rhaid ar yr un pryd ac ar gyfer y cyfnod at 2026, parhau i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (gydag Gwynedd).
- e. Bydd angen mewnbwn y Gwasanaeth i'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth fydd yn digwydd ar yr un pryd.
- f. Bydd y Gwasanaeth yn debygol o arwain ar faterion technegol a heriol cynllunio sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor.
- g. Parhau i ddelio gyda materion cynllunio polisi cynllunio dydd i ddydd fel rhoi arweiniad polisi cynllunio i Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor, datblygwyr a'r cyhoedd, ac ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a dogfennau gan gyrff eraill.

Rhaid cydnabod felly y bydd mwy o gostau staff i'r Cyngor gyda'r opsiwn yma (costau i'w cadarnhau drwy adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith). Hefyd, rhaid cydnabod nad oes sicrwydd y bydd Ynys Môn yn llwyddiannus wrth recriwtio staff i'r Tîm newydd, gan nodi y bydd capasiti Polisi Cynllunio newydd hefyd yn cael ei greu yn Gwynedd. Y gwirionedd yw y bydd mwy o swyddi ar gael rhwng y ddau Wasanaeth newydd, na'r 8 swydd sydd yn y Gwasanaeth ar hyn o bryd. Ar yr un pryd hefyd, bydd y Cyd bwyllgor Corfforedig yn debygol o fod yn hysbysebu'r swyddi fydd eu hangen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Felly, mae risg y gall anawsterau gyda llenwi swyddi effeithio ar ac oedi'r broses o gychwyn ac o baratoi'r

Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Hefyd, rhaid cofio fod darparu'r UPCC ers 2011 wedi rhannu'r costau staff 50/50 ac wedi arbed costau, a bod arbedion wedi eu gweithredu dros y blynyddoedd, gwnaeth gwtogi'r nifer o swyddi o 12 i 8.

Efallai y bydd angen cais am arian refeniw parhaol ar gyfer unrhyw costau staffio ychwanegol.

Creu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn

Mae costau unwaith ac am byth yn gysylltiedig a'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, os yw hyn ar y cyd a'i peidio. Mae'r costau'n cynnwys comisiynu unrhyw waith sydd ei angen ar gyfer hel y sail tystiolaeth, a'r Archwiliad Cyhoeddus ar ddiwedd y broses, lle mae'r gost fwyaf. Bydd dal cyfleoedd i gomisiynu rhai darnau o waith ar y cyd (gydag Gwynedd ac awdurdodau eraill) – ond mae'n debygol y bydd angen comisiynu gwaith sydd yn benodol i Ynys Môn, a bydd rhaid i Ynys Môn dalu costau'r Archwiliad Cyhoeddus i gyd.

Mae'n anodd rhagweld beth yn union fydd costau y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan fod hyn yn ddibynnol ar effaith unrhyw newidiadau megis newid i Bolisi Cynllunio Cymru, gall olygu'r angen i gomisiynu gwaith ychwanegol. Gall newidiadau hefyd effeithio ar gostau'r Archwiliad Cyhoeddus.

Gan mai Ynys Môn fydd yn talu y costau i gyd ar gyfer y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, ni fydd posib arbed costau fel sydd wedi bod yn bosib gyda'r trefniant cydweithio cyfredol.

Rhaid ystyried hyn wrth gwrs yng nghyd-destun y ffaith fod Gwynedd ac Ynys Môn wedi cael y buddion ers 2011 o arbed costau drwy'r trefniadau cydweithio ffurfiol. Hefyd, mae cronfa wrth gefn wedi ei sefydlu sydd yn deillio o arian sydd wedi ei arbed gan Ynys Môn drwy gydweithio. Rhagwelir ar hyn o bryd y gall hyn gyfrannu tuag at rai o gostau paratoi'r Cynllun newydd.

Yr opsiwn sydd yn cael ei ffafrio

Mae'r ddau awdurdod yn dilyn eu trafodaethau dros y misoedd diwethaf yn argymhell cychwyn ar y broses o ddod a'r trefniadau cydweithio i ben, sef opsiwn 2 ac mae'r manteision i Ynys Môn wedi eu gosod allan uchod. O safbwynt y cyfleoedd i ganolbwyntio'n benodol ar weledigaeth a dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn ac anghenion trigolion Ynys Môn, yna dod a'r trefniadau cydweithio i ben yw'r opsiwn a fuasai'n cyflawni hynny orau ac felly sydd yn cael ei ffafrio. Er mwyn sicrhau amser digonol ar gyfer hwyluso trosglwyddiad llyfn o'r trefniadau cydweithio presennol, a symud i greu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar wahân, credir y bydd angen ymestyn y gytundeb cydweithio hyd at diwedd Mawrth 2023, a dod a'r trefniant cydweithio i ben wedi hynny.

Rhaid pwysleisio nad yw hyn yn unrhyw adlewyrchiad o waith y UPCC a'r gefnogaeth iddynt gan ddau Awdurdod ers 2011, gan gydnabod fod y GPPC yn sicr wedi cyflawni ei bwrpas ac wedi dod a buddion i'r ddau Awdurdod.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

O ystyried goblygiadau strategol a gweithredol y penderfyniad, mae'n hanfodol bod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo'r argymhellion.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor i sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Mehefin 2010.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae cyllideb eisoes yn bodoli ar gyfer cyfraniad ariannol y Cyngor i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Efallai y bydd angen cais am arian refeniw parhaol ar gyfer unrhyw costau staffio ychwanegol.

Mae costau paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae creu Tîm Polisi Cynllunio newydd am rhoi perchnogaeth cant y cant ar faterion cynllunio i Ynys Môn, ac am caniatáu i'r Cyngor canolbwyntio ar anghenion trigolion awdurdod cynllunio Ynys Môn.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Bydd Tîm newydd yn arwain at chostau ychwanegol i'r Cyngor. Mae'r costau hyn yn cael eu hasesu gyda'r bwriad o'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith yn y dyfodol agos.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae'r opsiwn a ffefrir wedi ei adnabod yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mater i'r Cyngor yw dyfodol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ddim yn berthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai	Ddim yn berthnasol

	sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Byddai'r Tîm newydd yn gweithredu, a chael eu rheoli, drwy gydymffurfiaeth llawn hefo polisi Cymraeg y Cyngor.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Yr angen i sicrhau proses ac amserlen gadarn a theg i ddod â'r cytundeb presennol i ben
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Angen adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith i cadarnhau'r costau o sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd
3	Swyddog Cyfreithiol / Mônitro (gorfodol)	Angen adroddiad i'r Cyngor Llawn i sefydlu trefn wleidyddol newydd ar ôl ddidymu Pwyllgor ar y Cyd
4	Adnoddau Dynol (AD)	<p>Angen sicrhau bod yr holl newidiadau cyflogaeth i staff yn cael eu hystyried ynghyd â'r gofyniad cyfreithiol i ystyried goblygiadau TUPE posibl. Rhaid dilyn holl brosesau cyfreithiol ymgynghori cyflogaeth berthnasol.</p> <p>Mae angen ystyried yma hefyd, os dilynnir opsiwn 2 a bod angen mwy o staff, y gallai tueddiadau presennol y farchnad lafur gael effaith ar y gallu i recriwtio i'r rolau arbenigol gofynnol</p>
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:
Atodiad 1: Y camau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig
Atodiad 2: Y camau nesaf ar gyfer darparu Gwasanaethau Polisi Cynllunio ar wahân

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cam Allweddol		Amserlenni
Diffiniol		
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (Yn fyrrach fel arfer)
Cam 2	Cyn adneuo Paratoi a chynnwys	Tua 1.5 mlynedd
Cam 3	Strategaeth a Ffefrir Ymgynghoriad cyhoeddus	
Cam 4	Cynllun adneuo Ymgynghoriad cyhoeddus	Tua blwyddyn
Dangosol		Amserlenni
Cam 5	Cyflwyno	Tua 11 mis yn unol â Chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 6	Archwilio	
Cam 7	Adroddiad yr Arolygydd	
Cam 8	Mabwysiadu	
		Cyfanswm amser paratoi'r cynllun tair blynedd a hanner (Yn ogystal ag un cyfnod llithriant o dri mis)

**CAMAU GWEITHREDU AR GYFER GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO 2022/23
TIM RHEOLI'R GPCC WEDI EU CYTUNO AR Y 10 MEHEFIN (HYN YN DDAROSYNGEDIG I
BENDERFYNIAD Y CABINET)**

MATER	GWEITHREDIADAU AC ALLBYNNAU	ERBYN
Cysylltu gyda Llywodraeth Cymru	1. Cyfarfod gyda swyddogion LIC – GJ i drefnu cyfarfod i'r TRh gyda Mark Newey a Candice Myers.	Cyn diwedd Mehefin 2022
Penderfyniad ar y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol (cytundeb yn dod i ben diwedd Gorffennaf 2022)	<p>Cytunodd y TRh fod angen cyflwyno Adroddiadau i'r Cabinet (CG) a'r Pwyllgor Gwaith (YM) cyn diwedd Gorffennaf 2022 gydag argymhellion i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd y TRh yr angen i ymestyn y gytundeb at diwedd Mawrth 2023 er mwyn cael sefydlu trefniadau newydd a delio gyda materion staffio, gyda'r cytundeb i ddod ben wedi hynny. • Trefniadau ar gyfer Llywodraethu i'r dyfodol gan y bydd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ddiddymu. • Paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar wahân • Trefniant cydweithio i'r dyfodol • Materion staffio. <p>(Nodir y bydd rhai o'r materion yma yn faterion i'r Awdurdodau'n unigol – ond os oes costau ychwanegol sydd yn debygol ochr CG – bydd angen adnabod rhain)</p> <p>Cytunodd y TRh i gysoni'r adroddiadau cyn belled ac y bo modd gyda GJ i rannu drafft gyda CB a DJ.</p>	19 Gorffennaf 2022 – cyfarfodydd Cabinet (CG) a Pwyllgor Gwaith (YM)
Staff y GPCC a'r Gwasanaethau Polisi unigol (CG ac YM)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Diweddarau a chefnogi staff y Gwasanaeth. RJ i ddiweddarau'n ei chyfarfodydd tim – gyda'r TRh hefyd i ddiweddarau pan yn amserol. 2. Arweiniad gan Adnoddau Dynol (materion TUPE etc). CB i gadarnhau cyswllt adnoddau dynol YM a GJ i gadarnhau cyswllt CG. 3. Creu strwythurau staff Gwasanaethau Polisi newydd ar gyfer yr Awdurdodau unigol – yn ôl eu anghenion unigol, sefyllfa o ran cyllid, dyheadau unigol ac ati gan hefyd ystyried gofynion ychwanegol SDP / CJC. Hyn i gynnwys SDd ac arfarnu (os yn angenrheidiol). Cytunodd y TRh i drefniadau'r awdurdodau redeg gyfochrog. GJ i yrru 	<p>Parhaus</p> <p>Cyn diwedd Mehefin 2022</p> <p>Cyn diwedd Medi 2022</p> <p>Hydref 2022</p>

	<p>swydd ddisgrifiadau presennol i DJ cgabm</p> <p>4. Ymgynghori ar y strwythurau newydd – cytunodd y TRh y dylid gwneud hynny ar y cyd gyda staff y Gwasanaeth – mewnbwn adnoddau dynnol ei angen.</p> <p>5. Recriwtio staff i'r Strwythurau.</p>	<p>Cyn diwedd Mawrth 2023</p>
Cyllid	<p>1. CB a GJ i gadarnhau pwyntiau cyswllt ar gyfer materion cyllid</p> <p>2. CG angen anfonebu YM ar gyfer 2022/23 – am y flwyddyn ar ôl y penderfyniad yn Gorffennaf 2022.</p> <p>3. Angen trosglwyddo 50% o unrhyw gyllid yn y gronfa wrth gefn i YM a thacluso cyfrifon pan ddaw y gytundeb i ben</p> <p>4. Y ddau Awdurdod angen ystyried sut i gyfarch unrhyw gostau cyllidol ychwanegol gall ddeillio o'u strwythurau staff newydd</p>	<p>Cyn diwedd Mehefin 2022</p> <p>Gorffennaf / Awst 2022</p> <p>Ar ôl Mawrth 2023</p> <p>I'r awdurdodau ystyried yn unigol.</p>
Trefniadau llywodraethu ar gyfer GPCC hyd at diwedd y cytundeb cydweithio	<p>1. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd newydd wedi ei greu – cyfarfod ar y 17 Mehefin 2022.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cytunodd y TRh yr angen am sesiwn codi ymwybyddiaeth cyn y Pwyllgor Cymeradwyo cyfrifon – unig benderfyniad angen gan y Pwyllgor. 	<p>17 Mehefin 2022</p>
Rhaglen waith lefel uchel – tan diwedd y cytundeb cydweithio	<p>1. <u>Cytundebau Cyflawni (Drafft)</u> Cytunodd y TRh y dymuniad gan y ddau Awdurdod i baratoi Cytundebau Cyflawni (drafft) er mwyn hwyluso'r trefniadau ar wahân sydd ar y gweill. Cytunwyd i beidio adrodd y Cytundebau i'r Panel / Pwyllgor ar y Cyd – gan mai materion i'r awdurdodau unigol eu hystyried fydd hyn. Bydd y CC ar ffurf drafft a bydd angen i'r Awdurdodau unigol lenwi fewn gwybodaeth o ran adnoddau ayyb.</p> <p>2. <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u> Gwaith yn <u>angenrheidiol</u> i gwblhau AMB 2021-2022. Cytunodd y TRh fod rhaid gwneud hyn a'i adrodd i'r Panel a'r Pwyllgor ar y Cyd cyn cyflwyno i LIC.</p> <p>Cytunodd y TRh hefyd ar y darnau gwaith isod:</p>	<p>Hyd at Mawrth 2023</p> <p>Cyn diwedd Hydref 2022</p> <p>Hyd at diwedd Mawrth 2023</p> <p>Hyd at diwedd Mawrth 2023</p> <p>Diwedd Tachwedd 2022</p>

	<p>3. <u>Monitro Tai</u> Gwaith yn <u>angenrheidiol</u> wedi cychwyn ar hyn yn barod 2021-2022. Gwybodaeth yn bwydo i'r AMB</p> <p>4. <u>Ceisiadau Cynllunio</u> Parhau efo rhoi mewnbwn ar ceisiadau cynllunio a cyngor cyn cais fel mae'r angen yn codi.</p> <p>5. <u>Strategic Flood Consequences Assessment ar y cyd efo Parc Cenedlaethol Eryri</u> Gwaith wedi cychwyn ar hyn. Angen cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Tachwedd.</p> <p>6. <u>Adolygiad Tir Cyflogaeth (Employment Land Review) – ar y cyd efo PCE.</u> Hwn yn sail tystiolaeth pwysig ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gwaith o baratoi briff wedi cychwyn efo trafodaeth yn parhau rhwng y 3 Awdurdod (Polisi Cynllunio a Dat Econ) . Mae gwneud gwaith ar y cyd yn synhwyrol am nifer o rhesymau yn cynnwys cost a deall yr angen ar draws yr is ranbarth – hyn wedi ei gytuno ar lefel swyddogion perthnasol.</p> <p>7. Materion eraill sydd yn codi sydd yn flaenoriaethau i'r Awdurdodau (e.e. materion Tai Haf, ymgynghoriadau)</p>	<p>I'w gadarnhau</p> <p>I'w gadarnhau</p>
Fframwaith ar gyfer cydweithio ar ôl i'r cytundeb cydweithio ddod i ben	1. Angen cytundeb / dealltwriaeth anffurfiol rhwng ddau gyngor ar y gwaith fydd angen ei wneud gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a thu hwnt – gweler y rhaglenni gwaith posib isod.	Cyn diwedd Mawrth 2023
Rhaglen waith ar ôl i'r gytundeb ddod i ben mewn cysylltiad a'r gofynion gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar Cyd hyd at 2026	<p>Cytunodd y TRh fod y gwaith yma yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiad Monitro Blyneddol 2022-2023 ac yn flynyddol at 2026 (cyfnod y Cynllun) - pwy a sut fydd yn cael ei wneud gan nodi fod gweithdrefnau mewn lle yng Ngwynedd ar gyfer hyn eisoes. 2. Monitro Tai (gwaith yma yn hanfodol ar gyfer yr AMB) – mi fydd angen sefydlu ffordd o hel gwybodaeth y ddau awdurdod. Ar hyn o bryd defnyddio system allanol. 3. Ffigwr twf tai a hefyd ffigwr trothwy tai haf bydd angen i'r ddau awdurdod 	1 i 4 yn barhaus hyd 2026

	<p>sefydlu ffordd o casglu'r wybodaeth yma. Mae'r gwaith yma yn hanfodol ar gyfer y gwaith Gwasanaethau Cynllunio'r ddau Awdurdod.</p> <p>4. Darpariaeth o arweiniad cyson gyda gweithrediad polisiau cynllunio lle bo angen hynny yn sgil penderfyniad apêl neu lle bo newid ar lefel genedlaethol</p>	
Cyfleoedd cydweithio ychwanegol.	<p>Cytunodd y TRh y gall hyn gynnwys:</p> <p>Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyd-gomisiynu gwaith ymchwil / hel tystiolaeth lle bo manteision i'r ddau Awdurdod. 2. Posibilrwydd o wneud CCA ar y cyd <p>Cynlluniau Strategol sydd yn effeithio ar y ddau Awdurdod (e.e. Wylfa, Grid Cenedlaethol)</p>	Pan fod angen

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19 Gorffennaf 2022
Pwnc	Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd Carwyn Jones (Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	Tudur H. Jones
Ffôn:	2146
E-bost:	tudurjones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Perthnasol i bob Aelod Lleol

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellion

- 1) Cymeradwyo datblygu ymhellach y rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn, ac yn rhanbarthol, trwy fewnbwn gan swyddogion yn unol â'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn.**
- 2) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Aelod Portffolio i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Ynys Môn i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol er mwyn caniatáu i gyllid y rhaglen gael ei hawlio.**
- 3) Cefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i Lywodraeth y DU ac arwain y gwaith o wireddu'r rhaglen wedi hynny.**
- 4) Dirprwyo hawl i'r Aelodau Portffolio Datblygu Economaidd a Chyllid, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Arweinyddol, i gymeradwyo blaenoriaethau gwariant SPF y Cyngor ar gyfer 2022/23.**

1.0 Cyd-destun a Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

Roedd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ffynhonnell gyllido bwysig yng Nghymru dros nifer o ddegawdau, ond byddant yn cau yn ystod y 18 mis nesaf. Yn awr, mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel cynllun ariannu domestig i gymryd lle rhaglenni Ewropeaidd. Mae Ynys Môn wedi derbyn cronfeydd Ewropeaidd sylweddol erioed ac mae'r rhaglenni wedi ariannu ystod eang o gynlluniau i gefnogi busnesau, datblygu sgiliau a gwella cyflogadwyedd, yn ogystal â rhaglenni isadeiledd cyfalaf.

Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu buddsoddiad gwerth £2.5bn ledled y DU hyd at fis Mawrth 2025. Nod y rhaglen yw "meithrin balchder mewn lle a

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

chynyddu cyfleoedd bywyd”. Y blaenoriaethau buddsoddi a bennwyd gan Lywodraeth y DU yw:

- Cymuned a Lle – Cryfhau ein gwlad cymdeithasol a meithrin ymdeimlad falchder lleol a pherthyn. Datblygu cymdogaethau cydnerth a diogel.
- Cefnogi Busnesau Lleol – Creu swyddi a gwella cydlyniant cymunedol trwy gefnogi busnesau lleol. Hyrwyddo rhwydweithio a chydweithio a symbylu arloesi a thwf. Cymorth wedi'i dargedu i helpu busnesau i dyfu – e.e. arloesi, cynhyrchiant, effeithlonrwydd ynni, carbon isel ac allforio.
- Pobl a Sgiliau – Rhoi hwb i sgiliau craidd a chynorthwyo oedolion i ddatblygu yn y gwaith. Cynorthwyo pobl ddifreintiedig i gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Ariannu anghenion sgiliau lleol at ategu darpariaeth sgiliau oedolion lleol. Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd a chefnogi'r rhai hynny sydd fwyaf pell oddi wrth y farchnad lafur.

Rhyddhawyd y canllawiau ar gyfer y rhaglen ar 13 Ebrill 2022. Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan lywodraeth leol ar draws y DU. Dyrennir cyllid i lywodraeth leol ac ni ddisgwylir unrhyw fidiau cystadleuol. Mae disgwyl Cynllun Buddsoddi yn nodi'r dull ar gyfer gwireddu'r rhaglen er mwyn rhyddhau'r cyllid a bydd angen i Lywodraeth y DU ei dderbyn erbyn 1 Awst 2022. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i lywodraeth leol yng Nghymru gydweithio i lunio un Cynllun Buddsoddi ar gyfer pob rhanbarth ac enwebu un Corff Arweiniol i gyflwyno'r Cynllun a gweithredu fel corff atebol ar gyfer y cyllid. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn cymeradwyo Strategaethau Buddsoddi erbyn 31 Awst 2022.

Mae disgwyl i lywodraeth leol ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r rhaglen, gan gynnwys y trydydd sector a'r gymuned fusnes, a cheisio darparu cyfleoedd i sefydliadau sicrhau adnoddau o'r rhaglen i gyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y mae Ynys Môn wedi'i dderbyn a dylid nodi bod y cyllid hwn ar gyfer cyfnod o 3 blynedd.

Fel rhan o'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol, mae'n rhaid rhannu'r cyllid i'r tri maes buddsoddi â blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â dyraniad Lleol a Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir y bydd cyfran uwch o gyllid yn cael ei ddyrannu yn lleol (i'w gyflawni ar Ynys Môn), ac yn enwedig o dan y thema Cymuned a Lle, ble mae'n rhaid i'r gwaith cyflawni ddigwydd yn lleol.

Tabl 1 – Dyraniad Môn

	Cyfanswm
Craidd	£ 13,304,735
Lluosi	£ 2,777,202
	£ 16,081,937

Mae'r rhaglen Lluosi a gynhwysir yn y tabl uchod yn fenter gan Lywodraeth y DU i hybu rhifedd oedolion. Mae'r gyllideb ar gyfer y rhaglen yn uchel ac mae rhifedd

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

oedolion wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ei gyflawni ac mae rhaglenni a sefydlwyd eisoes ar waith. Felly, mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i benderfynu sut i wneud y defnydd gorau o'r cyfle hwn am gyllid.

2.0 Cynnydd hyd yma

Mae'r amserlen a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn caniatáu 16 wythnos i ymgynghori â rhanddeiliaid a chymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi i'w gyflwyno. Er nad oes disgwyl i'r Cynllun Buddsoddi ei hun gynnwys llawer o fanylion er mwyn ei gymeradwyo, mae angen i lywodraeth leol:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ac yn rhanbarthol;
- gosod blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen yn rhanbarthol ac yn lleol;
- cytuno ar strwythurau llywodraethiant priodol yn lleol ac yn rhanbarthol;
- dechrau paratoi methodoleg ar gyfer dyrannu cyllid; a chytuno ar gorff arweiniol rhanbarthol ar gyfer y rhaglen a sefydlu'r strwythurau a'r cytundeb angenrheidiol.

Sefydlwyd strwythurau rhanbarthol i arwain y broses hon a sefydlwyd grŵp uwch reolwyr i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen a grŵp cydlynw gweithredol i symud y ffrydiau gwaith uchod yn eu blaenau. Ar hyn o bryd, y bwriad yw gofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer y rhaglen. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n barod fel corff arweiniol ar gyfer portffolio Bargaen Dwf Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd gweithdai a chyfarfodydd rhanbarthol i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen o ran sgiliau a chyflogaeth. Bu tueddiad i ddarparu'r rhan fwyaf o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar lefel rhanbarthol neu is-ranbarthol oherwydd anghenion cyffredin y cleientiaid a'r gallu i sicrhau arbedion maint.

Yn lleol, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phartneriaid allanol, cynrychiolwyr y trydydd sector a'r gymuned fusnes. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynnal proses agored i wahodd syniadau a phrosiectau lefel uchel cychwynnol. Defnyddir yr holl wybodaeth a dderbyniwyd i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen ar Ynys Môn.

Er na phenderfynwyd eto ar drefniadau llywodraethu'r cyllid, ble ceir dyraniad rhanbarthol gellid defnyddio'r Grŵp Adfer Economaidd presennol, sef partneriaeth aml-sector a sefydlwyd yn dilyn y pandemig Covid, i gyfrannu at lywodraethiant y rhaglen. Bydd angen adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp i'r perwyl hwn.

3.0 Camau Nesaf

Mae'r rhaglen yn darparu adnodd ariannol cymharol gyfyngedig o gymharu ag ehangder y blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Argymhellir bod y Cyngor yn canolbwyntio ei adnoddau ar nifer lai o flaenoriaethau er mwyn sicrhau'r effaith orau bosib. Dylent gael eu llywio gan:

- Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol
- Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant
- Deilliannau'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Bydd angen i'r Cyngor lunio ei flaenoriaethau a ffefrir ar gyfer y rhaglen a'u cyflwyno i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ochr yn ochr ag elfennau rhanbarthol y Cynllun sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd y bydd modd diwygio'r Cynllun Buddsoddi yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

Mae cyfleoedd i weithgareddau o dan y themâu Pobl a Sgiliau a Chefnogi Busnesau Lleol gael eu darparu ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol yn hytrach nac yn lleol. Mae hyn yn helpu i sicrhau arbedion maint ac mae hyn wedi gweithio'n llwyddiannus hyd yma. Mae llai o gyfleoedd ar gyfer hyn yn y thema Lleuedd a Chymunedau. Argymhellir, ble bynnag y mae blaenoriaethau ar y cyd a chyfleoedd i wneud arbedion yn bodoli, y dylid defnyddio dull datblygu a chyflawni rhanbarthol. Bydd modd i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau 'lleol-benodol' o hyd, os nodir bod hynny'n fwy priodol. Yn hwyrach ymlaen yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen, yn ddiweddarach yn 2022, bydd angen i sefydliadau sy'n ceisio darparu prosiectau lleol ddangos sut fydd eu prosiect yn cyflawni buddiannau mesuradwy i bob sir er mwyn derbyn cyllid.

Bydd trafodaethau pellach â rhanddeiliaid strategol yn penderfynu ar y dull i'w ddilyn ar gyfer elfen Lluosi'r rhaglen a sut ddylid ei adlewyrchu yn y Cynllun Buddsoddi.

Bydd angen cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor wrth gyflawni'r rhaglen. Disgwylir y bydd tri prif ddull ar gyfer cyflawni'r rhaglen:

- 1) Cyflawni uniongyrchol gan dimau'r Cyngor a phartneriaid cyflawni (lle bo'n bosib) gan ddefnyddio cyllid y rhaglen
- 2) Gweithgarwch fydd yn cael ei gaffael
- 3) Rhoi cyllid i drydydd parti trwy alwadau agored a chystadleuol am gynigion

Oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan amserlen y rhaglen, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o wariant blwyddyn ariannol 2022/23 trwy gyfrwng y dull cyntaf.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i sicrhau fod y Cynllun Buddsoddi'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn y dyddiad cau ar 1 Awst 2022.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Gwneud dim – nid yw'r Cyngor yn cymryd rôl weithredol yn y broses Cronfa Ffyniant Gyffredin, ond nid yw hyn yn opsiwn gan y byddai'n peryglu prosesau / ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r penderfyniad hwn yn cyd-fynd â phenderfyniadau blaenorol gan y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â dyfarniadau ariannu Llywodraeth y DU – y Gronfa Adfywio Cymunedol (CRF) a'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF).

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Mae ardaloedd o Fôn yn dioddef amddifadrwydd ac maent ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Gall sicrhau Cyllid SPF gyflwyno gwelliannau diriaethol a creu swyddi a chyfleoedd.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Mae posibl iddo atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol trwy ysgogi twf economaidd a ffyniant.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Ydym – gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth y DU a sefydliadau allanol i'r Cyngor Sir.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ydynt – bu iddynt gynnal proses agored yn gofyn am syniadau a phrosiectau ym mis Mai a Mehefin 2022.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.	Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith gadarnhaol posibl ar bob dinesydd drwy greu swyddi a chyfleoedd.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Rhagwelwn fod modd i hyn gael effaith gadarnhaol ar bob dinesydd yn enwedig o ystyried bod Ynys Môn yn dioddef amddifadrwydd a bod nifer o'i thrigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)		
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Caiff unrhyw gais llwyddiannus posibl ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn union yr un modd â'r Saesneg.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Dim sylw
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Dim sylw
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro	Dim sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F – Atodiadau:

Ff – Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19/7/22
Pwnc:	Hunan Asesiad Corfforaethol 2022
Deilydd Portffolio:	Cyng. Robin W Williams
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD & Thrawsnewid
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Gethin Morgan 01248 752111 gethinmorgan@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	D/B

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

..... i adolygu ei berfformiad yn barhaus

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

- (a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,
- (b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac
- (c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,

lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad (a, b & c uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2021/22 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith –

- (i) dderbyn yr Asesiad a'r rhaglen cysylltiedig o welliant fel dogfen drafft sydd yn cydnabod ac yn cyfleu sefyllfa cyfredol y Cyngor Sir ac
- (ii) i wahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLI&A) am sylwadau pellach yn eu cyfarfod ar y 26ain o Orffennaf, 2022
- (iii) gan hefyd wahodd y PLI&A i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar y 13eg o fis Medi, 2022.

Noder y pwysigwrydd (yn unol a'r ddeddfwriaeth) bod y Cyngor Sir yn cymryd i ystyriaeth sylwadau'r PLI&A gan unai eu derbyn neu'i gwrthod. Os yn gwrthod

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

sylwadau'r PLI&A am ba bynnag reswm, bydd angen i'r Cyngor Sir nodi'r rhesymeg yn glir paham.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan fod y disgwyliad yma'n un o newidiadau creiddiol y ddeddfwriaeth newydd – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r broses hwn i ennyn sylw a sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd a'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio cyn i'r Hunan-Asesiad gael ei ystyried a'i fabwysiadu gan y Cyngor Sir llawn ym mis Medi eleni.

Mae'n broses sydd yn unol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn unol a'r cyfansoddiad diwygiedig (cymal / para 3.2.2)

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Rhagwelir bod y rhaglen waith cysylltiedig a'i wireddiad dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol a blwyddyn gyllidol y Cyngor Sir am 2022/23.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel corfforaeth.
---	---	--

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):		
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Yn rhannol – ydi, parthed y gwelliannau disgwyledig sydd ei angen mewn perfformiad rhai meysydd a.y.y.b.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Mae rhan penodol o'r hunan-asesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithio sydd yn digwydd ar draws ystod y gwasanaethau.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut.	Mae dinasyddion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau sgriwtini corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi barn a herio'r gorfforaeth ar ei berfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn datgan sut bod y gwasanaethau gwahanol yn cynnwys dinasyddion yn ei penderfyniadau.
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ni rhagwelir bod y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir dan ddeddf cydraddoldeb 2010.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	D/B
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.	D/B

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth ddywedon nhw?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA) (gorfodol)	Mae sylwadau'r PW / TAS wedi'i cynnwys yn yr adroddiad cyfredol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Mae sylwadau'r Swyddog 151 fel aelod cyflawn o'r TAS wedi cynnwys yn ogystal.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod cyflawn o'r TAS wedi'i cynnwys yn ogystal.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth ddywedon nhw?
4	Adnoddau Dynol (AD)	Sylwadau wedi cynnwys
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Dim yn berthnasol

F - Atodiadau:

Hunan-Asesiad Cyngor Sir Ynys Môn - 2022

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach):

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Hunanasesiad - 2022

Hunanasesiad cyntaf y Cyngor Sir, fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

DRAFT

Paratowyd gan – Y Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Hunanasesiad y Cyngor o ganlyniad i –

Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APG/SPR's) / Adroddiadau Perfformiad / Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (DLIB/AGS) / Adolygiadau Allanol / Arolwg Staff / Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Categori Hunanasesiad	Perfformiad	Rhesymeg
Rheoli Perfformiad	Da	<p>Perfformiad da yn erbyn dangosyddion allweddol</p> <p>Darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid wedi'i haddasu a'i moderneiddio</p> <p>Strwythurau llywodraethu priodol ar waith sy'n galluogi penderfyniadau amserol</p>
Defnyddio Adnoddau	Da	<p>Lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn</p> <p>Y mwyafrif o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn falch of fod yn gweithio i'r Cyngor</p> <p>Strwythurau cydweithredol rhagorol ar waith</p>
Rheoli Risg	Da	<p>Adroddiadau Archwilio Allanol Cadarnhaol</p> <p>Wedi ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg strategol</p> <p>Ymagwedd gadarnhaol y Cyngor tuag at ddiogelu corfforaethol</p>

Mae'r adroddiad hwn yn un sy'n adlewyrchu hunanasesiad cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio. Defnyddir yr adnoddau sydd ar gael iddo wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol o ran ei hymateb i'r pandemig Covid.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Mae'r Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaethau yn darparu un o elfennau craidd y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPPMF), ac mae eu swyddogaeth a'u pwrpas yn elfen hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol cryf.

Mae hunanwerthuso'n rhan annatod o unrhyw broses sydd ar waith i wella sefydliad, a'i brif bwrpas yw gweithredu fel modd o hunansicrhau. Fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, trwy hunanwerthuso mewn modd effeithiol, gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac, yn wir, preswylwyr.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn naw ohonynt) gwblhau hunanasesiad - gan sgorio eu perfformiad yn ôl meysydd a nodwyd yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn y pedwar maen prawf isod:

1. **Rhagorol** – Llauer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector
2. **Da** – Llauer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
3. **Digonol** – Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
4. **Anfoddhaol** – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

I ategu'r gwerthusiad o berfformiad, gofynnwyd hefyd i bob un o'r Gwasanaethau amlygu eu barn o ran sefyllfa'r gwasanaeth yn nhermau'r rhagolygon y bydd yn gwella yn y dyfodol. Gwnaed hyn trwy ddefnyddio'r meini prawf isod, a gellir cael mynediad iddynt yn Atodiad 'A'A':

- A. **Rhagorol** – Tebygol iawn. Mae gan y gwasanaeth hanes rhagorol o ran ei allu i wella, ac mae ganddo'r capasiti i gefnogi gwasanaethau eraill i wneud yn well
- B. **Da** – Gwasanaeth effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, ac mae'n gwybod pa feysydd y mae angen eu gwella. Trwy ganfod y gefnogaeth iawn a rhoi camau gweithredu ar waith, mae gan y gwasanaeth y potensial i wneud yn well fyth

- C. Digonol – Mae angen gwella'r gwasanaeth, ac mae angen ei helpu i ganfod y camau i wella, neu i wneud newidiadau'n gyflymach trwy drafodaethau â'r Uwch Dim Arweinyddiaeth
- D. Anfoddhaol – Mae angen gwella'r gwasanaeth yn sylweddol, ac mae angen iddo dderbyn cymorth ar unwaith

Gyda'i gilydd, mae'r gwerthusiad o berfformiad, yn ogystal â gwireddu'r rhagolygon y bydd gwasanaethau'n gwella yn y dyfodol, a gyflwynir i aelodau etholedig ac a fydd yn destun craffu ganddynt, yn darparu darlun cyfredol a chywir o sefyllfa'r gwahanol wasanaethau o'u safbwynt hwy, ac mae'n darparu rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr Hunanasesiad corfforaethol hwn.

Trwy gydol y naw mlynedd diwethaf, bu'r Cyngor yn gwella ac yn aeddfedu'r modd y mae'n esblygu'r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae'r hunanwerthusiad hwn yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw ar gyfer 2021/22, ac yn gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, a sgoriwyd gan ddefnyddio'r un dulliau â'r rheiny a amlinellwyd yn flaenorol.

DRAFT

A. Rheoli Perfformiad

Cyflwyniad

Er mwyn cael darlun trylwyr, teg a chyflawn o ansawdd rheoli perfformiad o fewn y Cyngor, bydd yr adran hon o'r hunanasesiad yn dwyn ynghyd gwybodaeth am Adroddiadau Perfformiad, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Trwy ddod â'r rhain ynghyd, gellir dangos ein perfformiad fel sefydliad, ynghyd â'n diwylliant a'r modd yr ydym yn rheoli newid, fel tystiolaeth i gefnogi'r casgliad cyffredinol.

Caiff tystiolaeth o'r adroddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn eu defnyddio hefyd fel dogfennau ategol:

- [Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#)
- [Yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol](#)
- Adolygiadau o Wasanaethau
- [Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
- [Y Cod Llywodraethu Lleol](#)
- [Adroddiadau chwarterol ar y Cerdyn Sgorio](#)

ac maent yn dangos y perfformiad yn erbyn dangosyddion, yn ogystal ag yn darparu tystiolaeth o'r camau gweithredu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod.


Adrodd ar Berfformiad

Trosolwg

O edrych ar y modd y mae'r Cyngor yn adrodd ar berfformiad, ceir tystiolaeth bod y graddiad cyffredinol yn 'dda'. Mae'n galonogol cael nodi y cafodd pob Gwasanaeth ond un eu graddio'n dda neu'n well fel rhan o'u hunanasesiad eu hunain o'u gwasanaeth. Yr unig wasanaeth a raddiwyd yn ddigonol oedd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, yn bennaf oherwydd y lefelau perfformiad o fewn y swyddogaeth Cynllunio. Nodir hefyd y cafodd dau wasanaeth, sef Tai a Thrawsnewid, eu graddio'n Rhagorol fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth, o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd ganddynt mewn ymateb i'r heriau'r pandemig.

O ran y dangosyddion yng nghyswllt y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, roedd eu perfformiad, o ganlyniad i'w meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru yn 2018/19 (y canlyniadau a gyhoeddwyd ddiwethaf) yn dda, a oedd yn golygu bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i raddio'n ail yn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn benodol honno. O ran perfformiad y Cyngor yn 2018/19, nodwyd y canlyniadau fel a ganlyn -

Dangosyddion MAC 2018/19



Oherwydd y pandemig Covid-19, fe gafodd y broses o gasglu dangosyddion mesurau atebolrwydd cyhoeddus (MAC) ar gyfer 2019/20 ei chanslo, a dim ond nifer fechan oedd wedi'u coladu yn ystod 20/21. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod perfformiad 2018/19, ac yn defnyddio hwn fel llinell sylfaen ar gyfer dod i gasgliad ynghylch perfformiad presennol.

Roedd targedau perfformiad y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag effaith y pandemig Covid-19.

Ar ddiwedd Ch3 (Rhagfyr 2021), roedd y mwyafrif (82%) o ddangosyddion perfformiad adroddiad monitro perfformiad chwarterol y cerdyn sgorio yn uwch na'r targed, neu o fewn lefel oddefiant o 5% o'u targedau.

Fodd bynnag, nodir na chafodd unrhyw ddangosyddion eu cytuno ar lefel genedlaethol o ran y modd y mae ysgolion yn perfformio, ac mae hyn yn parhau i fod yn her o safbwynt ceisio darparu tystiolaeth o berfformiad addysgol ar lefel gorfforaethol. Wedi dweud hynny, ni chafodd unrhyw ysgolion eu harolygu gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n galonogol cael gweld y dystiolaeth hon, ac mae'r **Adroddiad Perfformiad Blynnyddol** ar gyfer 2020/21 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021) hefyd yn dangos y gwaith a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn. Mae'n datgan ***“Ar ddiwedd blwyddyn heriol i bawb, mae'n galonogol cael nodi, o ran gweddill y dangosyddion a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn (33 o ddangosyddion), roedd y mwyafrif (70%) ohonynt wedi perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn lefel oddefiant o 5% o'u targedau.”***


Roedd rhai o'r prif bethau a gyflawnwyd yn cynnwys –



Adeiladwyd **10** uned fusnes newydd yn Stad Ddiwydiannol Penrhos yn ystod y flwyddyn, a chanddynt denantiaid lleol



Diogelwyd **£110,000** gan yr Awdurdod Datgomisiynu NiwcLEAR i gyflenwi blwyddyn gyntaf Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn



Cafodd **11 o fusnesau** gyllid o Gronfa Grantiau Gogledd Ynys Môn sydd wedi helpu i:

- greu neu ddiogelu **39** o swyddi lleol,
- creu **30 o gyfleoedd hyfforddi**, a
- chreu **96 o gyfleoedd gwirfoddoli**



Sefydlwyd menter gydweithredol â Grŵp Llandrillo-Menai i ddatblygu Fframwaith Brentisiaethau ar gyfer Gogledd Ynys Môn i helpu i ddarparu **cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau at y dyfodol** yn yr ardal



Daeth Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gytundeb ynghylch **dyfodol y ddarpariaeth o ran ysgolion cynradd yn ardal Llangefni**



Yn ystod y rhan gyntaf o'r flwyddyn, roedd ysgolion yn gweithredu o dan amodau argyfwng oherwydd y pandemig coronafeirws.

Roeddynt yn darparu **canolfannau gofal i blant bregus ac i blant weithwyr allweddol**, ac yn darparu gwersi a gweithgareddau digidol i'w cyflawni adref ar gyfer pob myfyriwr



Yn ystod blwyddyn o newid mawr, daeth **ein cymunedau** ynghyd gyda channoedd o gymdogion, aelodau teulu a ffrindiau'n rhoi cymorth i bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Mae'r cysylltiad cryf hwn dros y flwyddyn wedi helpu'r **Cyngor** a'n partneriaid, **Menter Môn** a

Medrwn Môn, i adeiladu ar y sylfaen o **wirfoddolwyr** a sefydlwyd o fewn ein cymunedau ers dechrau'r pandemig



Er mwyn **mynd i'r afael â thlodi bwyd** a bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, fe aeth y Cyngor ati, ar y cyd â phartneriaid lleol, i gyflwyno cynllun **Bwyd Da Môn / Môn Good Food**



Roedd nifer yr aelwydydd a leolwyd mewn **llety brys** yn ystod 2020-21 yn amrywio o rhwng **27 i 63 o unigolion a theuluoedd** bob nos. Dyma'r nifer **uchaf** a mwyaf cyson o aelwydydd y mae'r Gwasanaeth wedi darparu ar eu cyfer. Mewn cymhariaeth, lleolwyd rhwng 3 a 26 o aelwydydd mewn llety brys bob nos yn ystod 2019-20.



Fe gafodd y contract prydau ysgol ei ail-dendro. Bydd **disgyblion oedran cynradd** ledled yr ynys yn derbyn **prydau am bris gostyngedig** ac felly byddant yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i deuluoedd ar yr ynys mewn cyfnod o gostau byw cynyddol



Mae'r newid i dechnoleg ddigidol yn parhau i gyflymu o fewn ysgolion lle defnyddiwyd **grantiau gan Lywodraeth Cymru** i alluogi ysgolion i dderbyn rhagor o gyfrifiaduron **Chromebook**



Defnyddiwyd cyllid o gronfa **ICF Llywodraeth Cymru** i brynu **eiddo yng nghanol y dref yn Llangefni**, i gefnogi **Mencap Môn** a darparu Hyb ar eu cyfer yng nghanol Ynys Môn


I weld rhagor o wybodaeth o'r adroddiad hwn, ac i weld adroddiadau cysylltiedig eraill, ewch i www.ynysmon.llyw.cymru/cynllunycyngor

Yn dilyn Arolwg Sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mehefin 2021, cadarnhawyd ganddynt fod ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'n Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Roedd y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn dal i allu perfformio a chyflawni'r mwyafrif o'u targedau, mewn cyfnod o bwysau a heriau parhaus o ganlyniad i effeithiau'r pandemig.

Mae'r cyfuniad o dystiolaeth yn nodi'n glir bod perfformiad y Cyngor yn gyffredinol yn **DDA** a ddiffinnir fel "**Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol**".

Tra bu'r perfformiad yn galonogol, mae'n bwysig nodi ein bod ar daith barhaus tuag at wella ein gwasanaethau, a byddwn bob amser yn canfod meysydd sydd angen eu gwella a'u moderneiddio.

Un agwedd y bydd angen i ni ganolbwyntio arni yw sicrhau bod staff yn ymwybodol o berfformiad y Cyngor, gan fod arolwg staff 2022 yn cydnabod mai dim ond **1 o bob 4 aelod staff sy'n gwbl ymwybodol** o berfformiad y Cyngor, gyda **2 o bob 4 yn ymwybodol i ryw raddau**.



Meysydd i'w Gwella

Yn ystod 2022/23, y **gwelliannau allweddol a dargedir** yw:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Parhau i fonitro a gwella'r dangosyddion a effeithiwyd gan y pandemig coronafeirws i sicrhau y caiff unrhyw risgiau cysylltiedig eu rheoli'n briodol	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddedfnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Gwella perfformiad o fewn y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, gyda sylw arbennig i ddangosyddion o fewn y swyddogaeth Cynllunio	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth	Y Bwrdd Rhaglen
Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff	Y Tîm Arweinyddiaeth

Gwasanaethau i Gwsmeriaid


Trosolwg

Roedd y mwyafrif o'r gwasanaethau'n graddio eu perfformiad yn Dda.

Yr unig Wasanaeth oedd wedi cael ei raddio'n **Rhagorol** oedd y gwasanaeth **Dysgu** oherwydd y gwaith o fewn ysgolion trwy gydol blwyddyn arall o ansicrwydd o ganlyniad i'r pandemig. Roedd ethos 'un tîm' rhwng ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu'n sicrhau meddylfryd 'Tîm Ynys Môn' trwy'r cyfnod cyfan. Cyflwynodd yr ysgolion swigod ysgol a dysgu cyfunol, a ddilynwyd gan fenthycu cyfrifiaduron Chromebook i deuluoedd nad oedd yn gallu fforddio prynu gliniaduron i'w plant.

Bu **strategaeth ddigidol** y Cyngor a'i alluogrwydd digidol yn hanfodol o ran cynnal parhad busnes yn ystod cyfnod dwy flynedd y pandemig (yn ogystal â dewrder ac ymroddiad staff rheng flaen).

Mae rhai o'r newidiadau a'r **gwelliannau digidol** a wnaed yn cynnwys:



- Gallu archebu ymweliad â'r canolfannau ailgylchu trwy'r wefan, mae'r trefniant hwn yn parhau yng Nghanolfan Gwalchmai hyd heddiw
- O ran prynu'r gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd trwy'r wefan, gwelwyd tua 70% o'r ceisiadau'n manteisio ar fynediad i'r gwasanaeth yn ddigidol
- Ceir tystiolaeth y gwneir y mwyafrif o'r ceisiadau a'r ail-geisiadau ar gyfer bathodynau glas trwy ein darpariaeth ddigidol
- Gellir cyflwyno, gweld ac olrhain ceisiadau cynllunio trwy'r porth cynllunio digidol
- Erbyn hyn, gellir gwneud cais am drwydded tacsï trwy'r wefan
- Gellir hysbysu'r Cyngor ynghylch problemau o ran tipio anghyfreithlon / goleuadau stryd trwy'r wefan hefyd
- Mae'r Gwasanaeth Tai wedi mabwysiadu dull electronig gwell ar gyfer gwneud ceisiadau yng nghyswllt tai, hawliau lles a digartrefedd

Mae pob dangosydd o dan yr is-bennawd 'newid cyfrwng digidol' o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol wedi gweld perfformiad gwell na chanlyniadau blaenorol, ac wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, sydd felly'n caniatáu i ragor o ddinasyddion gael mynediad i wasanaethau ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt hwy.

Tra gellir ystyried bod y datblygiadau hyn yn rhai cadarnhaol, daw risgiau yn eu sgil hefyd. Trwy ei gofrestr risg strategol, mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau hyn o safbwynt mynediad, llywodraethu a chymorth, ac yn gweithio i'w lliniaru lle bo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad.

Rhestrir isod rhai o'r gweithgareddau eraill yng nghyswllt gwasanaethau i gwsmeriaid (**nad ydynt yn rhai digidol**) yr ymgwymerwyd â hwy gan y Gwasanaethau ers dechrau'r pandemig, ac y cafwyd tystiolaeth ohonynt o fewn yr adolygiadau o'r gwasanaethau yn 2021:

- Roedd pob gwasanaeth yn cadw at y [Siarter Gofal Cwsmeriaid](#) er gwaethaf y pandemig;

- Gwnaed dros 2,600 o alwadau lles i denantiaid y Cyngor i sicrhau eu lles ac i'w hysbysu ynghylch gwasanaethau ymateb cymunedol yn ystod y pandemig;
- Roedd y **Gwasanaethau Tai** hefyd yn gydran hanfodol yn y gwaith o sefydlu prosiect Neges, a oedd yn danfon eitemau hanfodol i'r gymuned yn ystod y panedmig, a oedd yn cynnwys bwyd;
- Bu'r **Gwasanaeth Adnoddau** yn gyfrifol am nifer o weithgareddau ychwanegol yng nghyswllt Covid-19, fel prosesu ceisiadau grant ar gyfer busnesau ledled yr ynys;
- Gwelodd y **Gwasanaeth Dysgu** sawl newid o ran y modd y darparwyd addysg i fyfyrwyr yn ystod y pandemig. Roedd newid i ddysgu ar-lein yn golygu y bu rhaid i athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd ddysgu'n gyflym i addasu i drefn newydd. Fe drawsnewidiwyd ysgolion yn Hybiau Gofal i blant gweithwyr allweddol a myfyrwyr a oedd yn agored i niwed. Rhoddodd pob ysgol arweiniad newydd ar waith o ran diogelwch.
- Gwelodd y **Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** gynnydd sylweddol o ran gwaith yr Uned Gwarchod y Cyhoedd o safbwynt sicrhau bod busnesau'n cadw at Ddeddf Coronafeirws (Cymru). Ar yr adegau nad ydynt yn gwneud hynny, rhoir hysbysiadau gorfodi ar waith i gadw preswylwyr yn ddiogel.
- Mae Canolfannau Hamdden wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith i sicrhau y caiff cwsmeriaid a staff eu cadw mor ddiogel â phosib wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Ar yr adegau y bu'r canolfannau ar gau, fe gafodd y staff eu hadleoli i weithio gyda'r tîm Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) ynghyd â helpu i ddanfoni parseli bwyd a PPE.
- Adeolwyd staff Môn Actif i ysgolion i gynorthwyo pan nad oedd athrawon cyflenwi ar gael i agor ystafelloedd dosbarth, a oedd yn sicrhau parhad y profiadau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Roedd y Canolfannau Hamdden hefyd wedi agor eu drysau i weithgareddau eraill fel y Gwasanaethau Mamolaeth ac ar gyfer profi'r gymuned ar lefel dorfol yn ardal Ynys Gybi.
- Gwelodd y Gwasanaethau i Oedolion un o'r effeithiau mwyaf ar eu gwasanaethau yn ystod cyfnod y pandemig, pan fu rhaid gwahardd unrhyw ymweliadau â Chartrefi Gofal. Roedd hyn yn golygu mai'r staff oedd yr unig wynebau cyfarwydd y bu modd i breswylwyr cartrefi gofal eu gweld am gyfnod hir.
- Gwelodd y **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** roi 'ap' ar waith o'r enw 'Newid', sy'n ceisio gwella'r modd yr oedd plant yn dangos eu hemosiynau yn ystod y pandemig.

Dengys yr enghreifftiau hyn bod y Cyngor wedi addasu a moderneiddio ei ddarpariaeth a'i ddulliau gweithio i gyflawni gofynion cwsmeriaid a gwella ei wasanaethau i gwsmeriaid yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn ogystal, roedd yr arolwg staff diweddaraf (2022) yn nodi –



Roedd **88% o'r staff** yn teimlo bod profiadau cadarnhaol i gwsmeriaid yn bwysig i'r Cyngor

Roedd **78%** yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando ar ei breswylwyr





Hefyd roedd **82%** yn teimlo bod syniadau gan staff o ran gwella profiadau cwsmeriaid yn cael eu hannog a'u gwerthfawrogi

Felly, ar y cyfan, o ystyried y dystiolaeth a'r drafodaeth a ddangoswyd trwy'r Adolygiadau Gwasanaeth a'r enghreifftiau a ddarparwyd uchod, mae'r perfformiad o ran Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn **DDA**.

Meysydd i'w Gwella

Yn ystod 2022/23, y **gwelliannau allweddol a dargedir** yw:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig	Y Pwyllgor Gwaith
Cael adborth ar brofiadau cwsmeriaid o ran y System Ffôn Gorfforaethol a'r switsfwrdd i lywio gwelliannau at y dyfodol	Tîm Arweinyddiaeth
Parhad pellach y newid o ran y sianel ddigidol trwy lansio 'Sgwrsfot' dwyieithog 'Mona' i hwyluso chwiliadau digidol a wneir gan gwsmeriaid ynghyd â phrofiadau ar-lein	Tîm Arweinyddiaeth
Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid	Tîm Arweinyddiaeth

Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

Trosolwg

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant y Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol, ar lefel uchel, i gefnogi llywodraethiant da, ynghyd â rheolaeth gadarn o ran cyllid cyhoeddus, ac i ddarparu sicrwydd annibynnol i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu o ran digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ynghyd ag uniondeb y prosesau adrodd a llywodraethiant ariannol. Mae'r adroddiad cyhoeddus blynyddol yn dangos y modd y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

Cefnogir y datganiad hwn hefyd gan ganfyddiadau'r adolygiadau o wasanaethau, a oedd yn darparu tystiolaeth bod Gwasanaethau'n perfformio'n dda, gyda phob un ond un wedi'u graddio'n Dda o fewn yr Adolygiadau Gwasanaeth. Mae gan bob gwasanaeth **strwythurau rheoli / llywodraethiant da** ac maent yn cynnal **cyfarfodydd portffolio rheolaidd**.

Yn ôl **Adroddiad Blynyddol** diweddaraf yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG/SIRO)** a drafodwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21^{ain} Medi 2021, "*mae trefniadau llywodraethu diogelu data y Cyngor wedi cyrraedd lefel ddigonol o aeddfedrwydd, ac wedi gwreiddio yn ddigonol yn niwylliant y Cyngor i'w alluogi i nodi newidiadau a gwelliannau angenrheidiol mewn ffordd organig a heb ymyrraeth gan reoleiddwyr allanol i sbarduno newid. Mae gan y Cyngor fecanweithiau a phrosesau ar waith i sicrhau fod gwybodaeth allweddol am gydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i dadansoddi fel bod modd sicrhau ymateb prydlon, newid gweithredol a datblygiad wedi'i dargedu.*"

Mae'r farn hon yn cyd-fynd â'r hunanasesiadau a luniwyd gan y Gwasanaethau.

Mae cydymffurfiaeth â pholisïau corfforaethol yn dal i fod yn dda, gyda'r defnydd o'r **Porth Polisi** yn helpu i sbarduno cydymffurfiaeth, a rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r Prif Weithredwr a Phenaethiaid Gwasanaethau.

Mae'r system '4Policy' yn darparu'r sicrwydd bod polisïau'n cael eu darllen a'u deall, sy'n lleihau'r risg o ran staff yn peidio â chydymffurfio â pholisïau corfforaethol.


Y gyfradd gwblhau gyfartalog ar hyn o bryd, o ran staff sy'n cwblhau'r ddau bolisi ar y **Porth Polisi**, yw 95% o'r staff cymwys. Mae 5% sy'n weddill, nad ydynt wedi cwblhau'r modiwlau, yn cynnwys aelodau staff newydd, staff sy'n absennol neu ar wyliau blynyddol, ynghyd â staff nad ydynt wedi cwblhau'r gwaith.

Gellir gweld dadansoddiad llawn [yma](#).



Tra bo'r hyn a nodir uchod yn gadarnhaol, nid yw'r Porth Polisi yn cynnwys yr holl staff, ac amcangyfrifir nad yw 700 o staff, nad ydynt yn staff ysgol, yn cael mynediad i'r Porth. Nid yw unrhyw rai o'n staff a leolir mewn ysgolion yn cael mynediad i'r Porth Polisi ychwaith, ond mae'r holl bolisïau ar gyfer ysgolion ar gael ar MonIT ac yn hygyrch i staff a leolir mewn ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda'r polisïau.



Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwblhau o ran y modiwlau e-ddysgu ar y 'Learning Pool' yn is. Ceir sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys mynediad i liniaduron o ran rhai aelodau staff. Cynhwysir cyfanswm nifer staff yr awdurdod, gan gynnwys staff a leolir mewn ysgolion, yn ogystal â'r amser ychwanegol a fynnir i gwblhau'r modiwlau. Mae'r gwaith yn parhau er mwyn gwella'r gyfradd.

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio a Safonau'r Iaith Gymraeg:


- Cyflenwi gwasanaethau Cymraeg;
- Llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg;
- Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Hybu'r Gymraeg;
- Cadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg.







Cynhaliodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymarferiad siopwr cudd ar y Cyngor yn ystod 2019-20, ac o ran perfformiad y Cyngor, daeth i'r casgliad **“roedd canlyniadau eich sefydliad yn ystod yr arolygon yn ganmoladwy iawn ac nid oes unrhyw faterion yn codi o'r canlyniadau sydd angen sylw”**.

Yn ychwanegol i'r adroddiad hwn o flynyddoedd blaenorol, fel rhan o'i broses hunanreoleiddio, cynhaliodd y Cyngor arolwg yn ystod y flwyddyn gyda phob Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn dal i gyflawni'r safonau yn ystod y pandemig Covid-19. Daeth yr Adroddiad Blynnyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym Mehefin 2021, i'r casgliad **“nad oes heriau o ran cydymffurfio â'r Safonau iaith a darparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith.”**

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn ein [Hadroddiad Blynnyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg](#).

Mae **Datganiad Llywodraethu Blynnyddol** yn rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yn ystod 2021, cafwyd sicrwydd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â phob un o'r saith egwyddor graidd:

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Asesiad Cyffredinol	Casgliad yr Hunanasesiad
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol	 Da	Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest.

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Asesiad Cyffredinol	Casgliad yr Hunanasesiad
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid	 Da	Mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynnol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith.
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol	 Da	Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy.
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu	 Da	Mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir.
Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo	 Da	Mae'r Cyngor Sir â'r strwythurau a'r arweinyddiaeth briodol yn ei lle a phobl a chanddynt y sgiliau a'r cymwysterau cywir i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithlon er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Bod polisïau a strategaethau clir yn eu lle i brofi bod ganddo'r capasiti i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ohono ynghyd â'r capasiti gweithredol.
Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref	 Da	Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad effeithiol ac effeithlon ei wasanaethu. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhannau hanfodol a phwysig o'r system rheoli perfformiad ac maent yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sydd yng Nghynllun y Cyngor.
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio	 Da	Mae Aelodau Etholedig y Cyngor a'r Uwch Reolwyr yn atebol am wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Mae gweithgareddau'n cael eu hymgydryd â nhw mewn dulliau tryloyw a chlir y gall cydranddeiliaid eu deall ac ymateb iddynt.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, ar ein [gwefan](#).

Ar y cyfan, ceir tystiolaeth ddigonol i gefnogi perfformiad **DA** ar gyfer yr adran hon.

Meysydd i'w gwella

Rhestrir isod y meysydd i'w gwella a nodwyd ar gyfer yr adran Llywodraethu a Chydymffurfiaeth:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau trwy ddefnyddio'r Porth Polisi, a bod staff nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r Porth Polisi yn gallu adolygu a derbyn y polisïau mewn modd sy'n gweithio iddynt hwy Dylai'r Gwasanaeth Dysgu'n arbennig nodi opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda'r polisïau	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Gwella cydymffurfiaeth staff yn erbyn yr holl fodiwlau e-ddysgu ar y Learning Pool	Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

B. Defnyddio Adnoddau

Cyflwyniad

O ran cyflawni ei ddyletswydd i ddefnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd ac effeithlon, mae'r rhan hon o'r hunanasesiad yn rhoi sylw arbennig i'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gyllid, ac yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ei nodau a'i amcanion.

Mae'r meysydd hyn yn darparu'r sicrwydd o ran p'un a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol ai peidio, a ph'un a fydd modd gwneud gwelliannau yn y flwyddyn i ddod.

Rheoli Pobl

Trosolwg

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos perfformiad **DA**.

Mae mentrau corfforaethol y llwyddwyd i fwrw ymlaen â hwy yn ystod y flwyddyn gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys:

- Ailgyflwyno'r rhaglen Hyfforddeion Corfforaethol
- Lansio Rhaglen Rheoli Môn (dull 3 haen i ddatblygu staff)
 - Rhaglen Academi Môn
 - Arweinyddion Môn
 - Twf a Datblygu Talent
- Datblygu polisi peilot 'gweithio Hybrid' ar gyfer staff a leolir mewn swyddfa

Mae'r **lefelau salwch** ar gyfer 2021/22 wedi cyflawni eu targed, a gellir eu cymharu â lefelau perfformiad y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gwelliannau o ran rheoli salwch o fewn Gwasanaethau, ynghyd â monitro gan y swyddogaeth AD, ac ymwybyddiaeth staff o bolisiau a phrotocolau a chydymffurfiaeth â hwy.

Ar y cyfan, bu nifer y **swyddi gweigion** yn isel, ond maent yn cynyddu, fel y mae'r gyfradd o ran **trosiant staff**.


Ar gyfartaledd, roedd y lefel o ran trosiant staff yn 10% ar gyfer 2021/22, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y diwydiant o 15.5% ar gyfer trosiant staff.

Mae pob gwasanaeth wedi llunio drafft o'u **cynlluniau datblygu gweithlu** - dylai'r rhain fod yn ddogfennau byw, gyda'r holl faterion o ran y gweithlu a rheoli staff yn cael eu cydnabod fel maes blaenoriaeth i reolwyr ar bob lefel.

Cyflwynwyd proses Sgwrs Flynyddol Ar-lein (rhwng rheolwyr a staff unigol) trwy 'Learning Pool' yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau y cynhelir sgysiau blynyddol rhwng rheolwyr a staff, ac y darperir tystiolaeth ohonynt i sicrhau eglurder o ran cyfeiriad, y disgwyliadau o ran perfformiad, a lles staff.


Mae canlyniadau'r arolwg staff (2022) hefyd yn cefnogi'r sgôr Da o ran rheoli pobl.

Gellir gweld enghreifftiau o'r canlyniadau isod:



Mae 4 o bob 5 aelod staff yn
teimlo'n **falch** o gael gweithio
i'r Cyngor

Byddai 4 o bob 5 aelod staff yn
argymell y Cyngor fel
cyflogwr



Mae 3 o bob 4 aelod staff yn
credu bod eu gwaith yn cael ei
werthfawrogi gan y Cyngor

Mae 3 o bob 4 aelod staff yn
siarad yn gadarnhaol
am y Cyngor i eraill



Mae'r canfyddiad 'da' hwn o safbwynt rheoli pobl yn Ebrill 2022, ynghyd â'r arolwg staff diweddaraf, yn adeiladu ar ganlyniadau arolwg staff 2020, a oedd yn cwestiynu'r modd yr oedd staff yn gwerthfawrogi'r gyfarwydddeb ddiwygiedig i weithio adref.

Tra bo hyn yn adlewyrchu sefyllfa gadarnhaol, nodir y bu anhawster o ran recriwtio a chadw staff yn fater a godwyd mewn Adolygiadau Gwasanaeth. O ganlyniad i archwiliad pellach, gwelir fod hyn yn dal i fod yn agwedd heriol ar ein gwaith o safbwynt rheoli pobl. Mae hyn yn brofiad cyffredin mewn Cyngorau a sectorau eraill, ynghyd â'r farchnad lafur ehangach ledled y DU, fel y nodwyd gan [Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol \(IIA\)](#).

Meysydd i'w gwella

Felly nodir y **meysydd gwella allweddol** ar gyfer 2022/23 yn y tabl, fel a ganlyn:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff	Y Tîm Arweinyddiaeth
Esblygiad pellach 'gweithio hybrid', gan gydbwyso'r gofynion o ran timau staff a pherfformiad, profiadau cwsmeriaid, iechyd a lles staff a dewis personol	Y Tîm Arweinyddiaeth
Darlledu cyfarfodydd hybrid ffurfiol y Cyngor mewn modd effeithiol a phroffesiynol	Y Tîm Arweinyddiaeth

Maes i'w wella	Sicrwydd
Sicrhau esblygiad pellach a chyflenwi cynlluniau datblygu gweithlu ar lefel Gwasanaethau unigol i gydbwyso perfformiad, moderneiddio, parhad busnes, iechyd a lles staff	Y Tîm Arweinyddiaeth
Cymryd camau pellach i wreiddio'r trefniant Sgwrs Flynyddol rhwng Rheolwyr ac aelodau staff	Adolygiadau Gwasanaeth

DRAFT

Adnoddau

Trosolwg

Roedd yr ansicrwydd, y galwadau newidiol a'r cyfyngiadau wedi gwneud 2021/22 yn gyfnod eithriadol o heriol i gyflenwi gwasanaethau o safbwynt adnoddau a rheoli adnoddau. Yn ei archwiliad o gyfrifon, mae Archwilio Cymru'n nodi'n glir bod y pandemig "wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas" a'i fod yn brawf sylweddol o ymrwymiad y staff eu bod wedi llwyddo i alluogi'r archwiliad o'r cyfrifon trwy eu proffesiynoldeb fel tîm o ran y modd y gwnaethant gynorthwyo Archwilio Cymru dan amgylchiadau mor anodd.


Tra bu 2021/22 yn her, gwelwyd bod perfformiad cyffredinol nifer o wasanaethau, o ran y modd yr oeddynt yn defnyddio ac yn blaenoriaethu eu darpariaeth, yn 'Dda'. Ystyriwyd fod tri gwasanaeth yn ardderchog - **Tai, Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ac Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**.

Tai, o ganlyniad i'r defnydd effeithiol ac effeithlon a wneir o gyllid CRT/HRA, ynghyd â defnyddio cronfa gyffredinol y Cyngor i gyflenwi mwy o ddarpariaeth o safbwynt digartrefedd a chartrefi gweigion.

Defnyddiodd y gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (gyda chymorth corfforaethol) eu hadnoddau'n effeithiol i ail-dendro contract y gwasanaeth casglu gwastraff ar adeg anodd, a llwyddwyd i wella eu gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd yn ystod yr un cyfnod.

Roedd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid wedi rheoli eu hadnoddau mewn modd effeithlon er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu effeithiol yn yr ardal leol. Yn ogystal, llwyddwyd i alluogi staff a leolir mewn swyddfeydd i weithio o bell (ac yn ddiogel) trwy gynllun peilot Hybrid.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu modd i'r Cyngor –



Yn ogystal, mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi bod y Cyngor yn awdurdod sy'n cael ei reoli'n dda, ac mae hynny yn ei dro'n cyfrannu at sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y [Cyngor Sir](#) yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fedi, 2021.

Yn anffodus, cafwyd tanwariant o ran gwariant cyfalaf, gyda phrosiectau'n cael eu gohirio o ganlyniad i'r pandemig, ynghyd ag effeithiau Brexit ar y sector adeiladu, ond rhoddwyd camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r mater ar gyfer 2022/23.

Roedd yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan Archwilio Cymru, yn farn archwilio ddiamod unwaith eto. Fodd bynnag, dywedwyd ganddynt “nodwyd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i’w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 fel maes i’w wella yn yr adroddiad Archwilio Cyfrifon (ISA 260)”.

Cwblhawyd y gwaith ar y Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2017/18 yn 2020/21. Fodd bynnag, mae **Archwilio Cymru** yn nodi bod eu gwaith ar archwilio hawliadau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19, 2019/20 a 2020/21 yn parhau. Nodir ganddynt hefyd “mae ein gwaith hyd yma wedi nodi nifer o faterion gyda’r hawliadau a materion yn ymwneud ag amser staff i ddelio ag ymholiadau’r archwilydd. Mae hwn yn faes lle mae angen i’r cyngor flaenoriaethu ymdrech yn ystod y misoedd nesaf fel y gall y cylch archwilio ddod yn fwy amserol.”

Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth o’r angen i flaenoriaethu a moderneiddio yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth, ac wedyn gan Y Tîm Arweinyddiaeth sydd wedi’i ffurfio o’r newydd. Bydd bwrw ymlaen â’r agwedd hon ar draws pob gwasanaeth (yn enwedig y gwasanaethau mwy) yn cynorthwyo’r Cyngor yn ei ymdrechion i wneud defnydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl o’i adnoddau yn y dyfodol. O ystyried y pwysau a’r costau ychwanegol sy’n parhau ar hyn o bryd, gyda’r rhybudd gan Fanc Lloegr ynghylch cyfnod o arafu economaidd fel y mae cyfraddau llog a chwyddiant yn codi, bydd hyn yn faes allweddol i’w wella o ran y Cyngor dros y 12 mis i ddod.

Meysydd i’w gwella

Ein meysydd gwella allweddol ar gyfer 2022/23 yw –

Maes i’w wella	Sicrwydd
Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ehangu ei raglen Dechrau’n Deg ar draws yr ynys, yn hytrach nag mewn rhai ardaloedd. Yn y diwedd, bydd hyn yn lleihau’r angen i blant ddod i mewn i’r gwasanaethau statudol ac yn lleihau ein poblogaeth o Blant sy’n Derbyng Gofal	Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol
Bod y Cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu strategaeth gyfalaf sy’n cyd-fynd â chynllun newydd y Cyngor (2022/27).	Y Pwyllgor Gwaith
Lleihau’r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda’r archwilydd allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff	Adroddiadau Archwilio Cymru
Bod y Cyngor yn adolygu a diwygio ei broses flynyddol ar gyfer pennu’r gyllideb i sicrhau y gellir rhoi camau ar waith ar gyfer 2023/24 i liniaru’r pwysau cynyddol.	Y Pwyllgor Gwaith

Cydweithredu ac Integreiddio

Trosolwg

Â hwnnw'n sefydliad bach ac arloesol, mae'r Cyngor yn parhau i goleddu cyfleoedd i gydweithredu mewn modd effeithiol ac ystyrlon fel rhan o'i werthoedd craidd, ac fel modd o weithio tuag at wella pa mor effeithlon ac effeithiol ydyw o ran ymateb i anghenion, cyfleoedd a heriau yn yr ardal leol. Mae sawl trefniant cydweithredol, ffurfiol ac anffurfiol, wedi profi i fod yn amhrisiadwy o safbwynt llywio gwaith y Cyngor a'r ynys a'u cynorthwyo i ymateb i heriau ac ansicrwydd y pandemig.

Mae'r asesiad hwn yn cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth o ran y modd y mae'r Cyngor yn coleddu'r pum dull o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ym mha agweddau y mae'n gwneud hynny.

Cafwyd bod saith gwasanaeth, o'r naw ohonynt o fewn y Cyngor, yn **Ardderchog** o ran yr adran hon - y **Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Tai, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Dysgu, Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Thrawsnewid**, o ganlyniad i'w hymdrechion cydweithredol parhaus ar draws nifer o ffrydiau gwaith wrth gyflenwi gweithgareddau busnes arferol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i dirwedd fythol newidiol y pandemig.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd y mae (ac nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Y Fforwm Amddiffyn Oedolion Bregus rhwng Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Byrddau Diogelu Iechyd Covid-19 – gyda phob un o'r 22 Awdurdod Lleol, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru
- Grŵp Gweithredol Taclo Tlodi Ynys Môn - CSYM, DWP, CAB Ynys Môn
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Mae'r tri Thîm Adnoddau Cymunedol yn ymateb i achosion cymhleth fel partneriaeth, ac yn parhau i gryfhau ei berthynas â'r trydydd sector, darparwyr gofal a phreswylwyr
- Rhaglen Gyflenwi Partneriaeth (Penaethiaid Safonau Masnach Cymru a Llywodraeth Cymru)
- Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn sy'n cynnwys partneriaethau ag amryw endidau cyhoeddus a phreifat ym maes twristiaeth
- Grŵp Banciau Bwyd Ynys Môn a chanddo bartneriaethau hanfodol â banciau bwyd lleol a'r CAB
- Llunio Lle, sy'n ymwneud â chydweithio gyda'r 3^{ydd} Sector a 5 cynghrair ar draws yr ynys i gefnogi cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u blaenoriaethau a'u hanghenion eu hunain.
- Grŵp Atal a Gwyliadwriaeth Covid-19 Ynys Môn (Partneriaeth Ranbarthol)

Ymgwymerwyd â rhagor o waith hefyd i wella ystod ac ansawdd gwasanaethau a'r profiad i gwsmeriaid a ddarperir trwy Cyswllt Môn, a gyflawnir mewn modd cydweithredol ac integredig i gefnogi nifer o wasanaethau.

Yn ogystal, roedd yr arolwg staff yn dangos bod staff yn teimlo'n gryf bod y Cyngor yn gwneud yn dda o safbwynt ein dull cydweithredol o weithio. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr ymhlith aelodau staff bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio, ac nad oedd unrhyw feysydd i'w gwella.

Felly, ar y cyfan, ceir tystiolaeth ddigonol i ddangos bod perfformiad y Cyngor Sir yn **ARDDERCHOG** o safbwynt ei waith cydweithredol ac integreiddio â sefydliadau eraill, ond nodwyd rhagor o feysydd i'w gwella ar gyfer eu gwireddu yn ystod 2022/23.

Meysydd i'w gwella

Dyma'r meysydd i'w gwella:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Parhau i ddatblygu ac adolygu partneriaethau i sicrhau eu bod yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â chynllun newydd a diwygiedig y Cyngor (2022/27), ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio
Sefydlu dull cydweithredol ar y cyd i gofnodi allbynnau a mesurau ar draws gweithlu'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n lleoli'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol	Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol
Adolygu'r broses Un Pwynt Mynediad (SPOA) i ganfod yr agweddau y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud hynny	Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol

C. Rheoli Risg

Cyflwyniad

Mae Rheoli Risg a'i ddefnydd o fewn sefydliad cymhleth fel Cyngor Sir yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir penderfyniadau, lefelau perfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r defnydd o reoli risg wedi gwella dros dymor y weinyddiaeth ddiwethaf, a chafwyd tystiolaeth a oedd yn cyd-fynd â hyn trwy sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT), sef fforwm a oedd yn rhan annatod o'r gwaith o ddelio ag ymateb y Cyngor i'r heriau yn sgil mynd i'r afael â'r pandemig,

Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau o Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â gan Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid, sy'n amlygu'r risgiau y mae angen eu lliniaru, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o ran Rheoli Risg.

Archwilio a Risg

Trosolwg

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafodd sawl gwasanaeth eu harchwilio'n allanol, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn arwain at asesiadau cadarnhaol. Adlewyrchir hyn yn y graddiad **DA** yn gyffredinol ar gyfer rheoli risg o safbwynt perfformiad gwasanaethau. Trwy'r Adolygiadau Gwasanaeth i gyd, roedd yn glir bod yr argymhellion o'r Archwiliadau Mewnol, yr Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

- Cwblhaodd **AGC/CIW** arolwg o'r gwasanaethau i oedolion hŷn a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.
 - Roedd yr arolwg yn nodi cryfderau, gan gynnwys *"mae atal yn eitem bwysig ar agenda'r awdurdod lleol"* ac *"mae'r dulliau o gyfathrebu â phobl sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol i gael cymorth yn barchus ac yn seiliedig ar gryfderau, yn aml yn gydweithredol, ac wedi'u seilio ar gydberthynas gyfartal ar y cyfan"*
 - Yn ogystal, daeth yr arolwg o hyd i rai meysydd i'w gwella o ran lles, llais a dewis pobl, partneriaethau, integreiddio a chyd-gynhyrchu, ynghyd ag atal ac ymyrraeth gynnar, sydd wedi arwain at ffurfio cynllun gweithredu gan y Gwasanaethau Oedolion Hŷn a gaiff ei fonitro gan Fwrdd Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.


Gellir gweld adroddiad yr arolwg [yma](#)

- O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae Estyn wedi atal ei arolygiadau o ysgolion, ac wedi cadw mewn cysylltiad â darparwyr addysg o bell. Nid oes unrhyw ysgolion o dan statws arolygu dilynol **Estyn**, sy'n rhoi sicrwydd bod dysgwyr yn cyflawni mewn lleoliadau addysg ar yr ynys.
- Cyhoeddodd **Archwilio Cymru** adroddiad cadarnhaol ym mis Tachwedd 2019 ar **['Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth'](#)** a daethant i'r casgliad "mae'r Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond ceir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach".
- Roedd y Cyngor hefyd yn rhan o **Adolygiadau Cenedlaethol** a gyflawnwyd gan Archwilio Cymru. Adroddir ymateb y Cyngor i'r Adolygiadau Cenedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol, a gellir ei weld [yma](#). Dyma'r Adolygiadau Cenedlaethol yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod 2020/21:

- [‘Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn’](#)
- [‘Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Adolygiad o Gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru’](#)
- [‘Gwasanaethau Dewisol \(Ebrill 2021\)’](#)
- [‘Adfywio Canol Trefi yng Nghymru \(Medi 2021\)’](#)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr Archwiliadau Allanol yr ymgwymerwyd â hwy ar gyfer [2020-21](#) trwy glicio ar yr hyperddolenni.

- Darparodd pob gwasanaeth dystiolaeth bod strwythurau ar waith i ymateb i archwiliad mewnol, gyda llawer o wasanaethau'n gwella cydweithrediad ac ymgysylltiad ag Archwiliadau Mewnol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig yng ngolau'r archwiliadau yr ymgwymerwyd â hwy ers dechrau'r pandemig.
- Yn yr Adroddiad Blynnyddol diwethaf ar Archwilio Mewnol, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol, “ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. . .mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau fod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.”
- Nododd Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol 2021-22 hefyd eu bod “yn gallu darparu sicrwydd **‘Rhesymol’** neu well ar gyfer 64% o'r archwiliadau a gynhaliwyd gennym yn ystod 2021/22. Derbyniodd saith archwiliad (28%) sicrwydd **‘Cyfyngedig’** yn ystod y flwyddyn, o gymharu â phump (22%) yn ystod 2020/21.



Mae'r adroddiad yn nodi ymhellach, yn unol â'u protocol, maent “yn ailymweld yn ffurfiol â'r holl ‘Faterion/Risgiau’ a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd **‘Cyfyngedig’**, ar derfyn y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw effeithiol. (Fe wnaethant) ailedrych yn ffurfiol â'r saith adroddiad â gradd sicrwydd **‘Cyfyngedig’**. Yn dilyn (eu) hailymweliad, (roeddynt) yn gallu codi'r sicrwydd i **‘Rhesymol’** mewn tri o'r adroddiadau, a (byddant) yn parhau i fonitro ac adrodd ar y pedwar sy'n weddill.”

Caiff gwelliannau yn erbyn y sicrwydd cyfyngedig a ddarperir yma eu blaenoriaethu gan y gwasanaethau perthnasol dros y 12 mis i ddod.

- Mae **cofrestrau risg** yn cael eu huwchlwytho, eu diweddaru a'u monitro'n chwarterol ar **'4Risk'** ac mae'r gofrestr risg strategol yn cael ei hadolygu'n gyson gan Y Tîm Arweinyddiaeth (TAS/SLT) ac fe'i hystyrir hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Mae'r defnydd o '4Risk' wedi'i wreiddio bellach o fewn cyfarfodydd rhithiol chwarterol y gwasanaethau. Bu'r defnydd o gofrestrau risg a'u camau lliniarol yn bwysig yn ystod y pandemig, gyda'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn eu hadolygu a'u diweddaru'n wythnosol i lywio penderfyniadau'r Cyngor a'u camau gweithredu mewn ymateb i'r pandemig.
- Er eu bod wedi'u datblygu a'u gwreiddio o fewn darpariaeth gwasanaeth dydd i ddydd, ceir awydd i ddatblygu eu defnydd y fewn y broses benderfynu gorfforaethol. Fel y cyfryw, caiff adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ei gwblhau yn ystod y flwyddyn a fydd yn helpu i ddatblygu'r berthynas hon.
- Cyflwynwyd y **'Diweddariad Rheoli Risg'** i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8^{fed} Chwefror ac roedd y cofnodion yn adlewyrchu bod y Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi nodi *"bod yr Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) wedi ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg yn ei chyfanrwydd a bod yr UDA wedi penderfynu canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai'n arwain at gyflawni blaenoriaethau strategol, ac felly mae cofrestr risgiau strategol newydd, sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol, wedi cael ei datblygu yn lle'r gofrestr risgiau corfforaethol."*
- Yn dilyn yr adolygiad, mae'r UDA wedi nodi pum risg gweddilliol coch/critigol i gyflawni amcanion corfforaethol a strategol y Cyngor ac mae'r rhain yn ymwneud â rheoli'r gweithlu, parhad TG, diogelwch seiber, moderneiddio ysgolion ac addasrwydd parhaus asedau ffisegol.
- Roedd pob Gwasanaeth yn credu bod eu perfformiad yn dda. **Mae'r dystiolaeth uchod ac o fewn Hunanasesiadau'r Gwasanaethau'n cadarnhau hyn, ac mae'n deg i ddweud bod perfformiad cyffredinol y Cyngor o safbwynt rheoli risg yn DDA.**

Meysydd i'w gwella

Y meysydd i'w gwella ar gyfer 2022/23 yw:

Maes i'w wella	Sicrwydd
Rhoi argymhellion yr Archwiliadau Allanol (cenedlaethol a lleol) ar waith a'u monitro gan ddefnyddio '4Action'	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Parhau i roi disgwyliadau ar waith o safbwynt rheoleiddio ar adeg o newid, trwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Diogelu Corfforaethol

Trosolwg

Cyflwynwyd yr adran hon o'r Adolygiadau Gwasanaeth i roi sicrwydd i'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol** bod y Cyngor yn ymgymryd â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol.

Roedd pob un ond dau o'r Gwasanaethau yn nodi perfformiad Da.

Y ddau wasanaeth yr ystyriwyd eu bod yn **ardderchog oedd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion**, sydd hefyd yn dylanwadu ac yn llywio dull gweithio'r Cyngor o ran Diogelu Corfforaethol, cynlluniau a phartneriaethau rhanbarthol.

Mae'n ofynnol i staff dderbyn y **Polisi Diogelu Corfforaethol** drwy'r **Porth Polisi** ers mis Rhagfyr 2018. Gwelwyd y diweddariad diwethaf o ran cydymffurfiaeth yn erbyn y polisi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2019, gyda 95% o'r staff wedi darllen a derbyn y polisi. Cyflwynwyd y polisi i'w aildderbyn ym mis Mai 2022 a bydd data cydymffurfiaeth yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ym mis Medi 2022.

Mae'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol** yn rhoi sicrwydd i Aelodau Etholedig, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Statudol bod arferion a threfniadau'r Cyngor o safbwynt diogelu yn gadarn. Mae'n cyfarfod yn chwarterol, fel rhan o gyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth Corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau bod pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth yn cael dylanwadu ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol, ynghyd â llywio'r gwaith hwnnw. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gamau i ganfod ac atal radicaleiddio, caethwasiaeth fodern, trais yn erbyn merched, cam-drin rhywiol a cham-drin domestig.

Ceir cynrychiolwyr o bob Gwasanaeth ar y **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol**, er y gellid gwella lefelau presenoldeb rhai o'r gwasanaethau. Datblygwyd hunanasesiad, a gyflawnir yn flynyddol, i sicrhau bod pob Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r polisi. Cynllunnir cynllun gweithredu wedyn, a gaiff ei fonitro gan y Bwrdd.

Mae'r cynllun gweithredu presennol yn canolbwyntio ar:

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth
- Gweithlu Diogel a Medrus
- Cymorth ac Ymyraethau Effeithiol
- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir

Mae rhaglen hyfforddiant sylfaenol a chyffredinol ynghylch diogelu ar gael, ac mae angen i wasanaethau fapio eu hanghenion yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Diogel, er mwyn bwydo i mewn i'r rhaglen gorfforaethol. Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd, yn unol â'r anghenion a nodwyd o ran y gweithlu.

Mae nifer o fodiwlau e-ddysgu ar gael i staff hefyd:

Polisi / Modiwl	Y ganran sydd wedi'u cwblhau
Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rywiol****	71%

Polisi / Modiwl	Y ganran sydd wedi'u cwblhau
GDPR****	82%
Caethwasiaeth Fodern****	82%
Prevent****	79%

Ar y cyfan, o safbwynt corfforaethol, byddai'r dystiolaeth yn arwain at berfformiad **Da** ar gyfer y **Cyngor**.

Meysydd i'w Gwella

Gellir gweld isod y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr Adolygiadau Gwasanaeth. Cynigir y caiff y rhain eu monitro gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol dros y 12 mis nesaf i sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu cyflawni.

Maes i'w wella	Sicrwydd
Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu pob ymateb gan y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fodlon gyda graddiad perfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol	Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol
Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gytuno ar gynllun gweithredu yn dilyn cwblhau hunanasesiadau gan y Gwasanaethau, a dylai'r bwrdd barhau i'w fonitro wrth fynd ymlaen	Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol

Ar y cyfan, mae perfformiad pob Gwasanaeth ar hyn o bryd yn Dda, gyda

“Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol”

Hefyd, mae’r **rhagolygon y byddant yn gwella yn DDA**, a ddiffinnir ymhellach fel -

“Gwasanaeth effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, ac mae’n gwybod pa feysydd y mae angen eu gwella. Trwy ganfod y gefnogaeth iawn a rhoi camau gweithredu ar waith, mae gan y gwasanaeth y potensial i wneud yn well fyth”.

Ceir tystiolaeth o hyn hefyd trwy blotio ar y matrices a atodir i’r adroddiad hwn bod pob Gwasanaeth yn deall pa mor dda (neu wan) yw ei berfformiad, ynghyd â pha mor gadarn yw’r rhagolygon y bydd yn gwella.

Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn gyffredinol yn gwneud cynnydd o safbwynt ei daith tuag at **Welliant Parhaus**, er yr heriau a’r ansicrwydd a grëwyd gan y pandemig.

Gallwn nodi’n hyderus bod y Cyngor bob amser yn ceisio gwella’r modd y darperir gwasanaethau trwy -

- newid prosesau,
- moderneiddio,
- lleihau gwastraff a
- gwella ansawdd.

Ceir tystiolaeth trwy’r Adolygiadau Gwasanaeth yn eu cyfanrwydd, ac mewn adroddiadau cysylltiedig, bod y gwelliant parhaus hwn wedi’i wreiddio ym mhob maes Gwasanaeth.

Mae arweinyddiaeth ystyrlon ac effeithiol o safbwynt gwleidyddol a chorfforaethol, ynghyd â staff ymroddedig, ymrwymedig, sy’n gweithio’n galed, yn cymell y perfformiad hwn, ynghyd â’r ymrwymiad i foderneiddio a chyflawni gwelliannau parhaus, gan gyflenwi gwasanaethau effeithiol a chydweithio mewn modd ystyrlon.

Mae cynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau y bydd y Cyngor newydd yn parhau i fwrw ymlaen â’r daith hon rhwng 2022 a 2027.

Y Tîm Arweinyddiaeth yw perchennog y cynllun gweithredu moderneiddio a gwella cysylltiedig, ac adroddir i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ynghylch y cynnydd a wneir.

.

Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor - 2022


Tudalen 105

Categori Hunanasesiad	Categoriâu Tystiolaeth	Oedolion	Plant	Busnes y Cyngor	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Tai	Dysgu	Adnoddau	Trawsnewid
Rheoli Perfformiad	Adroddiadau Perfformiad	Da	Da	Da	Digonol	Da	Rhagorol	Da	Da	Rhagorol
	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Rhagorol	Da / Digonol	Da
	Llywodraethu a Chydymffurfiaeth	Da	Da	Da	Da	Digonol	Da	Da	Da	Da
Defnyddio Adnoddau	Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl	Da	Da	Digonol	Da	Da	Rhagorol	Da	Da / Digonol	Da
	Adnoddau	Da	Da	Da	Da	Rhagorol	Da	Rhagorol	Da	Rhagorol
	Cydweithredu ac Integreiddio	Rhagorol	Rhagorol	Da	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Da	Rhagorol
Rheoli Risg	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol / Mewnbyn gan Gymheiriaid	Da	Da	Da	Amherthnasol	Amherthnasol	Da	Da	Da / Digonol	Da
	Archwilio Mewnol	Da	Da	Da	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Da	Digonol / Da	Da
	Diogelu Corfforaethol	Rhagorol	Rhagorol	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da

Matrics

Tudalen 106

Perfformiad Presennol



Allwedd

GO – Gwasanaethau Oedolion, BC – Busnes y Cyngor, PT – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Tai – Tai, PGE – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, D – Dysgu, A – Adnoddau, RDE – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, T – Trawsnewid

Mesydd a Nodwyd i'w Gwella

Maes i'w wella	Sicrwydd
Parhau i fonitro a gwella'r dangosyddion a effeithiwyd gan y pandemig coronafeirws i sicrhau y caiff unrhyw risgiau cysylltiedig eu rheoli'n briodol	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Gwella perfformiad o fewn y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, gyda sylw arbennig i ddangosyddion o fewn y swyddogaeth Cynllunio	Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio
Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth	Y Bwrdd Rhaglen
Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff	Y Tîm Arweinyddiaeth
Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig	Y Pwyllgor Gwaith
Cael adborth ar brofiadau cwsmeriaid o ran y System Ffôn Gorfforaethol a'r switsfwrdd i lywio gwelliannau at y dyfodol	Y Tîm Arweinyddiaeth
Parhad pellach y newid o ran y sianel ddigidol trwy lansio 'Sgwrsfot' dwyieithog 'Mona' i hwyluso chwiliadau digidol a wneir gan gwsmeriaid ynghyd â phrofiadau ar-lein	Y Tîm Arweinyddiaeth
Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid	Y Tîm Arweinyddiaeth
Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau trwy ddefnyddio '4Policy', a bod staff nad ydynt yn gallu cael mynediad i '4Policy' yn gallu adolygu a derbyn y polisïau mewn modd sy'n gweithio iddynt hwy Dylai'r Gwasanaeth Dysgu'n arbennig nodi opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda'r polisïau	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Gwella cydymffurfiaeth staff yn erbyn yr holl fodiwlau e-ddysgu ar y Learning Pool	Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff	Y Tîm Arweinyddiaeth

Maes i'w wella	Sicrwydd
Esblygiad pellach 'gweithio hybrid', gan gydbwysu'r gofynion o ran timau staff a pherfformiad, profiadau cwsmeriaid, iechyd a lles staff a dewis personol	Y Tîm Arweinyddiaeth
Darlledu cyfarfodydd hybrid ffurfiol y Cyngor mewn modd effeithiol a phroffesiynol	Y Tîm Arweinyddiaeth
Sicrhau esblygiad pellach a chyflenwi cynlluniau datblygu gweithlu ar lefel Gwasanaethau unigol i gydbwysu perfformiad, moderneiddio, parhad busnes, iechyd a lles staff	Y Tîm Arweinyddiaeth
Cymryd camau pellach i wreiddio'r trefniant Sgwrs Flynyddol rhwng Rheolwyr ac aelodau staff	Y Tîm Arweinyddiaeth
Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ehangu ei raglen Dechrau'n Deg ar draws yr ynys, yn hytrach nag mewn rhai ardaloedd. Yn y diwedd, bydd hyn yn lleihau'r angen i blant ddod i mewn i'r gwasanaethau statudol ac yn lleihau ein poblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal	Pwyllgor Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol
Bod y Cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu strategaeth gyfalaf sy'n cyd-fynd â chynllun newydd y Cyngor (2022/27).	Y Pwyllgor Gwaith
Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff	Adroddiadau Archwilio Cymru
Bod y Cyngor yn adolygu a diwygio ei broses flynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb i sicrhau y gellir rhoi camau ar waith ar gyfer 2023/24 i liniaru'r pwysau cynyddol.	Y Pwyllgor Gwaith
Parhau i ddatblygu ac adolygu partneriaethau i sicrhau eu bod yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â chynllun newydd a diwygiedig y Cyngor (2022/27), ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Sefydlu dull cydweithredol ar y cyd i gofnodi allbynnau a mesurau ar draws gweithlu'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n lleoli'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol	Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol
Adolygu'r broses Un Pwynt Mynediad (SPOA) i ganfod yr agweddau y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud hynny	Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhoi argymhellion yr Archwiliadau Allanol (cenedlaethol a lleol) ar waith a'u monitro gan ddefnyddio '4Action'	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Maes i'w wella	Sicrwydd
Parhau i roi disgwyliadau ar waith o safbwynt rheoleiddio ar adeg o newid, trwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu pob ymateb gan y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fodlon gyda graddiad perfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol	Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol
Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gytuno ar gynllun gweithredu yn dilyn cwblhau hunanasesiadau gan y Gwasanaethau, a dylai'r bwrdd barhau i'w fonitro wrth fynd ymlaen	Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol

DRAFT

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

Datblygiad i gynyddu capasiti Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd, gydag Uned Gofal ar safle'r ysgol estyngiedig.

Development to increase the capacity of Ysgol Y Graig by building a new Foundation Phase block, with a Childcare Unit on the extended school site.

PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

<p style="text-align: center;">Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972</p> <p style="text-align: center;">Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>	
<p style="text-align: center;">Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd:</p> <p>Mae adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer Ysgol y Graig, sydd yn cynnwys Uned Gofal Plant yn bwysig i randdeiliaid Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn er mwyn creu mwy o gapasiti a chael adeilad 21ain Ganrif sy'n addas at y pwrpas.</p> <p><i>There is a public interest in disclosure as:</i></p> <p><i>Building a new Foundation Phase block for Ysgol y Graig which includes a Childcare Unit, is important to Ysgol y Graig and Ysgol Talwrn stakeholders in order to create more capacity and have a 21st Century building that is fit for purpose.</i></p>	<p>Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw:</p> <p>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif am y prosiect h.y. gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol a thendro a all roi'r Cyngor dan anfantais pan mae'n dod i osod contractau ac ati ar gyfer gwaith i'r dyfodol.</p> <p><i>The public interest in not disclosing is:</i></p> <p><i>The report contains commercially sensitive information about the project i.e. Information relating to financial and tendering issues which could disadvantage the Council when it comes to awarding contracts etc. for future work.</i></p>
<p>Argymhelliad -Yn rhinwedd Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 -Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol. (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).</p> <p>Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.</p> <p>Recommendation - By Virtue of Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 -Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).</p> <p><i>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</i></p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank